# DOGFEN YMGYNGHORI STATUDOL




**Ysgol Abersoch**

**12 Ionawr 2021 – 23 Chwefror 2021**

# Cynnwys


| Adran | Disgrifiad | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|
| | Rhagair | 4 |
| 1 | Cyflwyniad | 5 |
| 1.1 | Y cynnig sy'n destun i'r ymgynghoriad statudol hwn | 5 |
| 2 | Yr Ymgynghoriad | 5 |
| 3 | Gwybodaeth Gefndirol | 9 |
| 3.1 | Sut y datblygwyd y cynnig | 9 |
| 3.2 | Panel Adolygu Ysgol (PAY) Abersoch | 9 |
| 4 | Trefniadau Presennol yn Ardal Abersoch | 10 |
| 4.1 | Ysgol Abersoch | 10 |
| 4.2 | Ysgol Sarn Bach | 10 |
| 4.3 | Ysgol Llanbedrog | 11 |
| 4.4 | Ysgol Foel Gron | 11 |
| 4.5 | Categorïau Ysgolion | 11 |
| 4.6 | Crynodeb | 12 |
| 5 | Achos dros newid | 13 |
| 5.1 | Y Sefyllfa Bresennol | 13 |
| 5.2 | Niferoedd Disgyblion a Rhagamcanion | 13 |
| 5.3 | Cryfderau a Gwendidau'r Sefyllfa Bresennol | 15 |
| 6 | Gwerthuso Opsiynau | 16 |
| 6.1 | Cymharu Opsiynau | 16 |
| 6.2 | Opsiynau Amgen | 18 |
| 6.3 | Asesiadau Effaith | 19 |
| 6.4 | Gwerthusiad o'r Opsiynau i'w Ystyried ar gyfer yr Ysgol | 20 |
| 7 | Y Cynnig | 23 |
| 7.1 | Rheswm dros y Cynnig | 23 |
| 7.2 | Ansawdd yr Addysg | 24 |
| 7.3 | Maint Dosbarthiadau ac Ystod Oedran Priodol | 27 |
| 7.4 | Niferoedd Disgyblion | 27 |
| 7.5 | Rheolaeth ac Arweinyddiaeth | 28 |
| 7.6 | Adnoddau Ariannol | 29 |
| 7.7 | Amgylchedd Ddysgu | 31 |
| 7.8 | Y Gymuned | 31 |
| 7.9 | Yr Iaith Gymraeg | 32 |
| 7.10 | Ffactorau Daearyddol | 34 |
| 7.11 | Effaith ar Gydraddoldeb | 36 |
| 7.12 | Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol | 36 |
| 7.13 | Gwybodaeth am Anghenion Dysgu Ychwanegol | 36 |
| 7.14 | Ôl ddefnydd y Safle | 36 |
| 7.15 | Risgiau Posibl | 37 |
| 7.16 | Manteision ac anfanteision disgwyliedig y Cynnig | 37 |
| 8 | Crynodeb o'r cynnig | 38 |
| 9 | Egluro'r broses statudol a manylion ymgynghori | 38 |
| 10 | Amserlen Arfaethedig | 40 |

Atodiad 1 - Gwerthuso Opsiynau

Atodiad 2 – Ffurflen Ymateb

# Rhagair

Mewn cyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd ar **15 Medi 2020,** ac yn ddiweddarach ar **3 Tachwedd 2020,** penderfynodd y Cabinet i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol ar gynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021, a darparu addysg i ddysgwyr yn Ysgol Sarn Bach o'r $1^{af}$ o Fedi 2021, yn unol â gofynion Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.

Bydd yr ymgynghoriad statudol yn cael ei gynnal rhwng **12 Ionawr 2021 a'r 23 Chwefror 2021,** yn seiliedig ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar y 31 Awst 2021, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach ar y 1 Medi 2021.

Byddai Cyngor Gwynedd yn hoffi i chi gyflwyno eich barn fel y gellir ei hystyried cyn gwneud penderfyniad. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, byddwn yn cyflwyno adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd.

Mae copi o'r ddogfen hon, a phapurau cefndirol eraill, ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg a bydd copïau caled o'r holl ddogfennaeth hefyd ar gael ar gais i'r Swyddfa Moderneiddio Addysg drwy e-bostio moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru neu ffonio **01286 679247**.

**SYLWER** – dylid anfon unrhyw sylwadau ar y ddogfen ymgynghori statudol at y Swyddfa Moderneiddio Addysg erbyn **13:00 ar ddydd Mawrth, 23 Chwefror 2021**. Cewch hyd i'r manylion cyswllt perthnasol ar ddiwedd y ddogfen hon.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich ymateb.

Yn gywir,



Garem Jackson
**Pennaeth Addysg**

# 1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Gwynedd yn ystyried cau Ysgol Abersoch o ganlyniad i’r tuedd o niferoedd isel sydd wedi bod yn yr ysgol er rhai blynyddoedd. Ym mis Medi 2020, 10 o ddisgyblion oedd ar y gofrestr. Enwir Ysgol Sarn Bach, fel yr ‘ysgol amgen’ a chynigir darparu lle i’r disgyblion yma.

Mae Cyngor Gwynedd wedi ystyried sawl opsiwn ar gyfer addysg gynradd yn nalgylch Ysgol Abersoch er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy i’r dyfodol, gan ymateb yn benodol i’r niferoedd isel o ddisgyblion. Mae’r ddogfen hon yn amlinellu’r broses ymgynghori, y ffactorau y mae’r Cyngor yn eu hystyried yn berthnasol a’r broses o wneud penderfyniadau.

## 1.1 Y Cynnig sy’n Destun i’r Ymgynghoriad Statudol hwn yw:

Cau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021, a chynnig lle i’r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Medi 2021.

# 2. Yr Ymgynghoriad

Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal rhwng **12 Ionawr 2021 a 23 Chwefror 2021.**

**Dim ond gydag Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud, felly dylai ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gyfeirio at y cynnig fel y’i disgrifir ym mharagraff 1.1 uchod.**

Bydd y ddogfen ymgynghori yn cael ei dosbarthu i'r ymgynghorai canlynol yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru:

| Gofynion y Cod Trefniadaeth 011/2018 | Dosberthir i… |
|---|---|
| Awdurdod cynhaliol neu awdurdod cynhaliol arfaethedig unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni; | Cyngor Gwynedd sy’n cyflwyno'r cynnig |
| Unrhyw awdurdod lleol arall (gan gynnwys, lle bo’n briodol, awdurdod lleol yn Lloegr) y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arno - gan gynnwys, yn achos darpariaeth AAA ddynodedig, unrhyw awdurdod sy'n gosod neu sy'n debygol o osod disgyblion ag AAA ynddi; | Cynghorau Powys, Dinbych, Conwy ac Ynys Môn |
| Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal lle mae unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni; | Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru |
| Unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni; | - |

| | |
|---|---|
| Corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun cynigion; | Corff Llywodraethwyr Ysgol Abersoch<br>Corff Llywodraethwyr Ysgol Sarn Bach |
| Cyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynnig, ym marn y cynigydd, yn debygol o effeithio arnynt; | Corff Llywodraethwyr Ysgol Llanbedrog<br>Corff Llywodraethwyr Ysgol Foel Gron |
| Gweinidogion Cymru; | Gweinidogion Cymru |
| Aelodau Etholaethol a Rhanbarthol y Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli ardaloedd a wasanaethir neu y bwriedir eu gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion; | AC Etholaeth Dwyfor-Meirionnydd<br>Dafydd Elis-Thomas AC<br>ACau rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru<br>Helen Mary Jones AC<br>Neil Hamilton AC<br>Joyce Watson AC<br>Eluned Morgan AC<br>AS Etholaeth Dwyfor-Meirionnydd<br>Liz Saville Roberts AS |
| Estyn; | Meilyr Rowlands – Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| Undebau'r athrawon ac undebau staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy'n destun cynigion; | Cynrychiolwyr NASUWT; NEU; UCAC; ASCL; UNSAIN |
| Y Consortiwm Addysg Ranbarthol perthnasol; | Arwyn Thomas – Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| Comisiynydd Heddlu a Throseddu yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion; | Arfon Jones - Comisiynydd Heddlu Gogledd Cymru |
| Unrhyw gyngor cymuned neu dref ar gyfer yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion; | Cyngor Cymuned Llanengan<br>Cyngor Cymuned Llanbedrog |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol y gall y cynigion effeithio arnynt, gan gynnwys Mudiad Meithrin; | Cylch Meithrin / Cylch Ti a Fi Abersoch<br>Cylch Meithrin Llanbedrog |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, lle bo'r rhain yn bodoli; | Gwynedd Ni<br>Mudiad Meithrin – Arbenigwyr Blynyddoedd Cynnar |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth AAA, unrhyw gyrff iechyd neu gyrff trydydd sector perthnasol â buddiant yn y cynigion; | Cynrychiolydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol; | Ysgol Glan y Môr / Ysgol Botwnnog |

| | |
|---|---|
| yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg. | Comisiynydd y Gymraeg,<br>Mantell Gwynedd |
| Arall | Holl Gynghorwyr Cyngor Gwynedd<br>Holl benaethiaid ysgolion Gwynedd |

Bydd y ddogfen ymgynghori hon yn cael ei chyhoeddi ar wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg a bydd copïau caled ar gael ar gais o'r Swyddfa Moderneiddio Addysg.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, bydd swyddogion Cyngor Gwynedd yn cynnal sesiynau "galw heibio" dros gyfrwng meddalwedd rhithwir, er mwyn rhoi cyfle i ran-ddeiliaid megis Llywodraethwyr, staff, a rhieni ofyn cwestiynau a thrafod yr ymgynghoriad ymhellach.

Yn ogystal, bydd croeso i ymgynghorai gyflwyno cwestiynau ynglŷn â'r cynnig arfaethedig neu'r ymgynghoriad drwy eu hanfon at moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru yn ddelfrydol yn ystod pythefnos cyntaf yr ymgynghoriad h.y rhwng **12 a 26 Ionawr 2021**. Byddem yn ymdrechu i ddarparu ymateb amserol er mwyn galluogi ymgynghorai i gyflwyno ymateb gwybodus yn ystod y cyfnod ymgynghori. Lle'n briodol byddem hefyd yn cynnwys y cwestiwn ac ateb ar ein gwefan er budd ymgynghorai eraill.

Bydd y sylwadau a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol yn cael eu hystyried gan y Cabinet, cyn gwneud penderfyniad ar y camau nesaf. Bydd Cabinet Cyngor Gwynedd yn penderfynu parhau â'r cynnig ai peidio, ac a ddylid cyhoeddi Rhybudd Statudol ai peidio.

Fel rhan o'r broses ymgynghori, bydd pecyn gwybodaeth gefndirol yn cael ei gyflwyno ar wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg a bydd copïau caled ar gael ar gais o'r Swyddfa Moderneiddio Addysg. Mae'r pecyn yn cynnwys:

- Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018
- Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion(Cymru) 2013
- Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i blant Gwynedd
- Pecyn Ystadegau (2020-21)
- Adroddiad Asesiad Ardrawiad Ieithyddol
- Adroddiad Asesiad o'r effaith tebygol ar y gymuned
- Adroddiad Asesiad Cydraddoldeb
- Adroddiad Asesiad o'r effaith tebygol ar drefniadau teithio
- Adroddiad Asesiad o'r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg
- Adroddiad Asesiad Deddf Llesiant
- Cofnodion Cyfarfodydd Panel Adolygu Ysgol
- Adroddiad Cabinet a Thaflen Benderfyniad Medi 2019
- Adroddiad Cabinet a Thaflen Benderfyniad Medi 2020
- Adroddiad a chofnodion Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi Hydref 2020
- Adroddiad Cabinet a Thaflen Benderfyniad Tachwedd 2020

Os ydych yn dymuno derbyn y ddogfen hon ar ffurf wahanol, neu os oes gennych gwestiynau eraill am y cynnig, cysylltwch â'r Swyddfa Moderneiddio Addysg drwy e-bostio moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru

## Ymgynghoriad gyda Phlant a Phobl Ifanc

i

Gwneir trefniadau hefyd i sicrhau ein bod yn derbyn barn plant a phobl ifanc sy'n mynychu'r ysgolion. Bydd sesiynau penodol yn cael eu cynnal gyda grŵp o ddisgyblion o'r ddwy ysgol – mae'r union drefniadau i'w cadarnhau. Mae'r ddogfen ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc i'w gweld ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg ynghyd â ffurflen ymateb/holiadur. Golygai hyn y gall pob disgybl ymateb i'r ymgynghoriad.

## Sut i Ymateb i'r Ymgynghoriad?

Bydd yr ymatebion a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried gan y Cabinet cyn penderfynu ar y camau nesaf.

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn trwy lenwi'r ffurflen ymateb sydd wedi ei hatodi i'r ddogfen ymgynghori a'i dychwelyd i:

**E-bost:** moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru

**Post:** Swyddfa Moderneiddio Addysg
Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

**Nodyn** - Rhaid i bob ymateb, boed drwy'r post neu e-bost, gyrraedd Pencadlys y Cyngor erbyn **13:00 o'r gloch ar ddydd Mawrth, 23 Chwefror 2021.**

# 3. Gwybodaeth Gefndirol

## 3.1. Sut y Datblygwyd y Cynnig

Yn Medi 2019, roedd 7 disgybl llawn amser (4-8 oed), a 2 ddisgybl meithrin yn mynychu Ysgol Abersoch. Yn ei gyfarfod ar 17 Medi 2019, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd gefnogi argymhelliad i “gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda Chorff Llywodraethol a budd-deiliad perthnasol eraill Ysgol Abersoch yn sgil pryderon ynghylch niferoedd yr ysgol, i alluogi llunio ystod o opsiynau posibl yn ymwneud â dyfodol yr ysgol.”

Yn unol â phenderfyniad y Cabinet (17 Medi 2019), sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol Abersoch (PAY) gan wahodd y Corff Llywodraethol, rhieni a staff a’r Aelod Lleol i ymuno â’r panel a chymryd rhan yn y drafodaeth. Cynhaliwyd tri chyfarfod PAY rhwng Hydref 2019 ac Ionawr 2020 i drafod ystod o opsiynau i geisio datrys y prif heriau y mae’r ysgol yn ei wynebu.

Datblygwyd y cynnig yn unol â chyflawni nod y strategaethau presennol. Cyflwynwyd y Strategaeth “Addysg Gynradd o’r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd” i gyfarfod o’r Cyngor Llawn ar 2il Ebrill 2009. Derbyniwyd y strategaeth yn unfrydol gan y Cyngor ac mae’n amlinellu’r weledigaeth:

“Cynnig addysg o’r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi’r profiadau, y sgiliau a’r hyder i blant y Sir a’u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn”

Defnyddiwyd ffactorau'r Strategaeth Addysg Gynradd o’r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd i’w mesur yn erbyn yr opsiynau. Mae’r asesiad hwn i’w weld fel atodiad i’r ddogfen hon.

Yn ogystal, ystyriwyd y strategaethau a’r amcanion a ganlyn wrth ddatblygu’r cynnig:
- Tuag at 2025 – Dyfodol Addysg a Hyfforddiant i Blant a Phobl Ifanc yng Ngwynedd
- Cynllun Hybu’r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-23
- Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23

Yn ei gyfarfod ar 15 Medi 2020, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd benderfynu ymgymryd â phroses ymgynghori statudol yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach, ar y 1af Medi 2021. Cadarnhawyd y penderfyniad gan y Cabinet yn eu cyfarfod ar 3 Tachwedd 2020, yn dilyn i’r penderfyniad gwreiddiol gael ei alw mewn a’i gyfeirio’n ôl i’r Cabinet gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn ei gyfarfod ar 8 Hydref 2020.

## 3.2. Panel Adolygu Ysgol Abersoch

Sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol (PAY) Abersoch ym mis Hydref 2019 a chynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhwng mis Hydref 2019 a Ionawr 2020, gyda'r olaf ar 6 Ionawr 2020. Roedd y PAY yn cynnwys pennaeth yr ysgol, llywodraethwyr, yr Aelod Lleol, rhieni, a staff.

Yn ystod y cyfarfodydd, ystyriwyd sawl opsiwn ar gyfer addysg gynradd dalgylch Ysgol Abersoch er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy i’r dyfodol, gan ymateb yn benodol i’r niferoedd isel o ddisgyblion, a maint bychain y dosbarthiadau.

# 4. Trefniadau Presennol yn Ardal Abersoch

Mae dalgylch Ysgol Abersoch yn ffinio gyda dalgylch 3 ysgol gynradd gyfagos, sef Ysgol Sarn Bach, Ysgol Foel Gron ac Ysgol Llanbedrog.




**1 Lleoliadau ysgolion ardal Abersoch**

## Ysgolion sydd yn Destun yr Ymgynghoriad yma:

### 4.1 Ysgol Abersoch

- Mae Ysgol Abersoch yn gwasanaethu pentref Abersoch, o ddeutu saith milltir o Bwllheli, ac yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3-8 oed.
- Mae disgyblion yn trosglwyddo o Ysgol Abersoch i Ysgol Sarn Bach ym mlwyddyn 4.
- Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn rhan amser ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yn ddisgyblion llawn amser ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Ym mis Medi 2020, roedd 8 disgybl llawn amser a 2 ddisgybl rhan amser (meithrin) wedi eu cofrestru yn yr ysgol.
- Mae 5 (50%) o ddisgyblion Ysgol Abersoch yn dod o ddalgylch yr ysgol. Daw gweddill y disgyblion (5 (50%)) o ddalgylchoedd ysgolion cyfagos.
- Ceir 1 dosbarth yn yr ysgol.
- Lleolir Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi Abersoch yn yr ysgol.
- Yn ôl cyfrifiad 2011, mae 43.5% o siaradwyr Cymraeg yn Ward Abersoch. Mae 33% o ddisgyblion yr ysgol yn siarad Cymraeg gartref, ond nid yn rhugl (PLASC Ionawr 2020).
- Mae'r ysgol yn derbyn cyllid ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddisgyblion llawn amser). Cyfanswm y cyllid ychwanegol hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21 (seiliedig ar niferoedd Medi 2019) yw £52,582.
- Cost fesul disgybl yn Ysgol Abersoch yw £17,404 (2020-21), gyda chyfartaledd sirol cost fesul disgybl yn £4,198.

### 4.2 Ysgol Sarn Bach

- Mae Ysgol Sarn wedi'i lleoli yng nghanol pentref Sarn Bach, ac wedi ei lleoli 1.4 milltir o Ysgol Abersoch.
- Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn rhan amser ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yn ddisgyblion llawn amser ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae'r ysgol hefyd yn derbyn disgyblion ym mlwyddyn 4 o Ysgol Abersoch bob mis Medi.
- Ym mis Medi 2020, roedd 45 o ddisgyblion (+3 meithrin) wedi eu cofrestru yn yr ysgol.
- Yn unol â data cyfrifiad 2020, roedd 28 o ddisgyblion (M-Bl.6) Ysgol Sarn Bach yn byw o fewn dalgylch yr ysgol. Roedd 20 o'r disgyblion yn byw mewn dalgylch ysgol arall, gan gynnwys 9 (Meithrin i Bl.3) oedd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch.

- Ceir dau ddosbarth yn yr ysgol.
- Yn ôl cyfrifiad 2011, mae 63.4% o siaradwyr Cymraeg yn Ward Llanengan. Mae 53% o ddisgyblion Ysgol Sarn Bach yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref (PLASC Ionawr 2020).

## Ysgolion Cynradd eraill cyfagos:

Darperir gwybodaeth am yr ysgolion isod gan y gellid ei ystyried yn rhesymol y byddai'r disgyblion yn dymuno trosglwyddo iddynt.

### 4.3 Ysgol Llanbedrog

- Mae Ysgol Llanbedrog wedi ei lleoli ym mhentref Llanbedrog, sydd oddeutu pedair milltir o Bwllheli, a 3.5 milltir o Ysgol Abersoch.
- Ym mis Medi 2020, roedd 93 o ddisgyblion (+10 meithrin) wedi eu cofrestru yn yr ysgol.
- Mae 35% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref (PLASC 2020).

### 4.4 Ysgol Foel Gron

- Mae Ysgol Foel Gron wedi ei lleoli yng nghanol pentref Mynytho, sydd oddeutu pum milltir o dref Pwllheli yng Ngwynedd, a 3.4 milltir o Ysgol Abersoch.
- Ym mis Medi, roedd 40 o ddisgyblion (+3 meithrin)  wedi eu cofrestru yn yr ysgol.
- Mae 42% o ddisgyblion yr ysgol yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref (PLASC 2020).

### 4.5 Categorïau Ysgolion

Mae ysgolion Gwynedd yn cael eu diffinio fel rhai Cymunedol, Gwirfoddol a Gynorthwyir *(VA)* neu Wirfoddol a Reolir *(VC)*. Yn ychwanegol, gall ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir a Gwirfoddol a Reolir gael eu dynodi gyda chymeriad crefyddol h.y. fel ysgol yr Eglwys yng Nghymru.

Mae Ysgol Abersoch, Ysgol Sarn Bach ac Ysgol Llanbedrog yn ysgolion 'Cymunedol'. Mae Ysgol Foel Gron yn ysgol Wirfoddol a Reolir (*VC*) gyda chymeriad crefyddol (Eglwys yng Nghymru).

## 4.6 Crynodeb o Ystadegau'r Ysgolion:

| | | Abersoch | | Sarn Bach | | Llanbedrog | | Foel Gron | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Lleoliad yr Ysgol** | | Pwllheli, LL53 7EA | | Pwllheli, LL53 7LF | | Pwllheli, LL53 7NU | | Pwllheli, LL53 7RN | |
| **Ystod Oedran** | | 3 - 8 | | 3 - 11 | | 3 - 11 | | 3 - 11 | |
| **Categori'r Ysgol (Ysgol gymunedol [CS], Gwirfoddol dan Gymorth [CWN], Gwirfoddol dan Reolaeth [CWR])** | | CS (B) | | CS | | CS | | CWR (E) | |
| **Categori Cyfrwng Iaith** | | Cyfrwng Cymraeg | | Cyfrwng Cymraeg | | Cyfrwng Cymraeg | | Cyfrwng Cymraeg | |
| **Nifer o ddisgyblion ar y gofrestr – Medi 2020** | **Meithrin** | 2 | | 3 | | 10 | | 3 | |
| | **Derbyn – Bl. 6**<br>**(Derbyn – Bl. 3 yn achos Ysgol Abersoch) | 8 | | 45 | | 92 | | 40 | |
| | **Cyfanswm** | 10 | | 48 | | 102 | | 43 | |
| **Nifer o ddisgyblion ar y gofrestr yn y bum mlynedd flaenorol** | | **Meithrin** | **Derbyn-Bl.3** | **Meithrin** | **Derbyn-Bl.6** | **Meithrin** | **Derbyn-Bl.6** | **Meithrin** | **Derbyn-Bl.6** |
| | **Medi 2019** | 2 | 7 | 2 | 48 | 12 | 80 | 5 | 35 |
| | **Medi 2018** | 1 | 12 | 4 | 43 | 9 | 75 | 3 | 36 |
| | **Medi 2017** | 1 | 16 | 3 | 48 | 12 | 69 | 3 | 37 |
| | **Medi 2016** | 7 | 17 | 4 | 44 | 11 | 68 | 8 | 32 |
| | **Medi 2015** | 4 | 16 | 3 | 56 | 7 | 65 | 3 | 39 |
| **Capasiti** | **Meithrin** | 8 | | 7 | | 10 | | 7 | |
| | **Derbyn – Bl. 6**<br>**(Derbyn – Bl. 3 yn achos Ysgol Abersoch) | 34 | | 66 | | 73 | | 54 | |
| | **Cyfanswm** | 42 | | 73 | | 83 | | 61 | |
| **Llefydd Gweigion D-Bl6 Medi 2020** **(Derbyn – Bl. 3 yn achos Ysgol Abersoch) | | 26 (76%) | | 21 (32%) | | 0 | | 14 (26%) | |
| **Rhagamcanion Disgyblion** | | **Meithrin** | **Derbyn-Bl.3** | **Meithrin** | **Derbyn-Bl.6** | **Meithrin** | **Derbyn-Bl.6** | **Meithrin** | **Derbyn-Bl.6** |
| | **Medi 2021** | 3 | 7 | 2 | 40 | 10 | 84 | 6 | 39 |
| | **Medi 2022** | 2 | 10 | 2 | 31 | 10 | 84 | 4 | 33 |
| | **Medi 2023** | 2 | 10 | 2 | 28 | 10 | 82 | 4 | 32 |
| | **Medi 2024** | 2 | 9 | 2 | 22 | 10 | 78 | 5 | 28 |
| | **Medi 2025** | 2 | 9 | 2 | 17 | 10 | 73 | 4 | 30 |
| **Data perfformiad Ysgolion (Estyn)** | | 3 x Da (2017) | | 5 x Da (2017) | | 3 x Da (2014) | | 3 x Da (2015) | |
| **Categori Cyflwr Adeiladau (Criteria'r Cyngor)** | | B | | B | | B | | B | |
| **Dyraniad Cyllidol 2020-21** | | £137,140 | | £228,890 | | £364,470 | | £185,417 | |
| **Cost y disgybl 2020-21** | | £17,404 | | £4,683 | | £4,274 | | £4,984 | |

# 5. Achos Dros Newid

## 5.1. Y Sefyllfa Bresennol

Mae'r ysgol wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser. O ganlyniad, mae'n debygol felly bod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys:

- **Niferoedd disgyblion isel:** Yn Medi 2020, roedd 8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgyblion meithrin wedi eu cofrestru yn yr ysgol.
- **Rhagamcanion niferoedd:** Rhagwelir y bydd y niferoedd yn parhau yn isel dros y blynyddoedd nesaf (Medi 2021 = 10; Medi 2022 = 12; Medi 2023 = 12.)
- **Canran uchel o lefydd gweigion:** Yn seiliedig ar ffigyrau Medi 2020, mae o ddeutu 76% o lefydd gweigion yn yr ysgol (26 mewn nifer) (D-Bl.3)
- **Maint dosbarthiadau bychain:** Mae'r 10 disgybl yn cael eu dysgu mewn un dosbarth cymysg eu hoedran.
- **Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau:** Addysgir y disgyblion mewn un dosbarth gydag amrediad oed hyd at 5 mlynedd (3-8 oed).
- **Adnoddau Ariannol:** Mae Ysgol Abersoch yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio. Cyfanswm y swm yn ystod y flwyddyn ariannol 2020-21 yw £52,582. Y gost fesul disgybl yn Ysgol Abersoch yn y flwyddyn ariannol 2020/21 yw £17,404 – y cyfartaledd sirol ar gyfer cost fesul disgybl yw £4,198.
- **Annedd disgyblion:** Dengys data 2020 fod 26 o ddisgyblion 3-8 oed yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch gyda 21 (81%) ohonynt yn mynychu ysgolion tu allan i'r dalgylch.

| | | **Byw yn Dalgylch... (Medi 2020)** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Abersoch** | **Sarn Bach** | **Llanbedrog** | **Foel Gron** | **Arall** | **Cyfanswm Ysgol (M-Bl6) *(M-Bl. 3 yn achos Ysgol Abersoch)** |
| **Mynychu Ysgol ... (Medi 2020)** | **Abersoch** | 5 | 1 | - | - | 4 | **10** |
| | **Sarn Bach** | 9 | 28 | - | 2 | 9 | **48** |
| | **Llanbedrog** | 6 | 6 | 58 | 15 | 17 | **102** |
| | **Foel Gron** | 2 | 4 | 4 | 24 | 9 | **43** |
| | **Arall** | 4 | 2 | 2 | 1 | | |
| **Cyfanswm** | | **26** | **41** | **64** | **42** | | |

***Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Medi 2020***

## 5.2. Niferoedd Disgyblion a Rhagamcanion

Yn gyffredinol mae gostyngiad o oddeutu 20% wedi bod yn nifer y disgyblion ar draws ysgolion y Sir ers 1975. O ganlyniad, caiff adnoddau eu gwario bob blwyddyn ar gynnal a chadw adeiladau a systemau aneffeithlon yn hytrach nag ar addysg plant a phobl ifanc.

Mae'r tabl isod yn crynhoi niferoedd disgyblion ysgolion yr ardal rhwng 1980 a 2020:

| Ysgol | Niferoedd [Meithrin – Bl.6 (Oed 3-11)] | | | | | | | | | | | 1980-2020 | 1980-2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **1980** | **1985** | **1990** | **1995** | **2000** | **2005** | **2010** | **2015** | **2017** | **2019** | **2020** | **twf** | **% twf** |
| **Abersoch* (3-8 oed)** | 34 | 30 | 13 | 14 | 29 | 19 | 20 | 20 | 17 | 9 | 10 | -24 | -71% |
| **Sarn Bach** | 51 | 53 | 62 | 59 | 74 | 54 | 51 | 59 | 51 | 50 | 48 | -3 | -6% |
| **Llanbedrog** | 90 | 83 | 48 | 62 | 63 | 65 | 78 | 72 | 81 | 92 | 103 | 13 | 15% |
| **Foel Gron** | 43 | 20 | 25 | 42 | 44 | 52 | 31 | 42 | 40 | 40 | 43 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** | **218** | **186** | **148** | **177** | **210** | **190** | **180** | **193** | **189** | **191** | **204** | | |

*Ffynhonnell: Data Cyfrifiad Blynyddol Ysgolion Gwynedd (Medi 2020)*

Dengys y tabl uchod bod niferoedd disgyblion Ysgol Abersoch ar gyfer Medi 2019 yr isaf ers 39 mlynedd gyda lleihad o -71% o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol rhwng 1980 a 2020. Mae niferoedd Ysgol Sarn Bach wedi lleihau -6% ers 1980 yn ogystal. I'r gwrthwyneb, mae niferoedd Ysgol Llanbedrog wedi cynyddu 15% yn yr un cyfnod.

Mae'r tabl isod yn dangos y boblogaeth bresennol o ddisgyblion yn yr ardal.

| Ysgol | Niferoedd (Medi 2020) | |
|---|---|---|
| | **Llawn amser** | **Rhan amser** |
| **Abersoch** | 8 | 2 |
| **Sarn Bach** | 45 | 3 |
| **Llanbedrog** | 92 | 10 |
| **Foel Gron** | 40 | 3 |

*Ffynhonnell: Data Cyfrifiad Medi 2020*

Dengys y tabl isod ragamcanion disgyblion yr ardal ar gyfer y 5 mlynedd nesaf *(D – Bl.6 ac eithrio Ysgol Abersoch ymhle cyfeirir at niferoedd D – Bl.3):*

| Ysgol | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Abersoch** | 7 | 10 | 10 | 9 | 9 |
| **Sarn Bach** | 40 | 31 | 28 | 22 | 17 |
| **Llanbedrog** | 84 | 84 | 82 | 78 | 73 |
| **Foel Gron** | 39 | 33 | 32 | 28 | 30 |
| **Cyfanswm** | **170** | **158** | **152** | **137** | **129** |

*Ffynhonnell: Data Cyfrifiad Medi 2020*

## 5.3. Cryfderau a Gwendidau'r Sefyllfa Bresennol

| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Abersoch | Niferoedd disgyblion isel a diffyg profiadau o gymdeithasu a chydweithio yn ddyddiol gyda chyfoedion ar gyfer y disgyblion |
| Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/ o fewn y gymuned. | Dosbarthiadau bychain gydag ystod oedran eang o hyd at 5 mlynedd. |
| Ysgol o fewn pellter cerdded i'r mwyafrif o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch | Cost y disgybl uchel |
| | Rhagamcanion niferoedd disgyblion yn dangos niferoedd yn parhau'n isel dros y 5 mlynedd nesaf. |
| | Ni fyddai dyraniad cyllidol yr ysgol yn cynnal y strwythur staffio presennol i'r dyfodol. |
| | Canran o lefydd gweigion yn uchel |
| | Ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynaladwyedd hir dymor yr ysgol |
| | Canran uchel o blant yn mynychu ysgolion all-dalgylch |
| | Ysgol Abersoch yn parhau i dderbyn swm ychwanegol i'r dyraniad ariannol arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio. |

Cydnabyddir bod y gwendidau a nodir uchod yn gorbwyso'r cryfderau, ac o ganlyniad, mae'r Adran Addysg o'r farn na fyddai parhau â'r ddarpariaeth addysg bresennol yn Ysgol Abersoch yn opsiwn hyfyw ar gyfer y dyfodol. Mae'r Adran Addysg o'r farn nad yw'n ymarferol parhau â'r sefyllfa bresennol yn bennaf oherwydd:

- Dosbarthiadau bychain iawn
- Niferoedd isel a diffyg profiadau o gymdeithasu a chydweithio yn ddyddiol gyda chyfoedion ar gyfer y disgyblion
- Rhagamcanion ar gyfer y dyfodol yn dangos y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y 5 mlynedd nesaf, gyda 9 disgybl yn mynychu erbyn 2025.

# 6. Gwerthuso Opsiynau

Yn ystod y cyfarfodydd lleol, cynigwyd a thrafodwyd nifer o fodelau posibl, yn benodol:

| | |
|---|---|
| **Dim newid (‘*Y Status Quo*’)** | Gwneud Dim. Parhau gyda’r sefyllfa bresennol. |
| **Opsiwn 2 (a)** | Newid ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed |
| **Opsiwn 2 (b)** | Newid ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-9 oed |
| **Opsiwn 3** | Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos |
| **Opsiwn 4** | Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan leoli’r Cyfnod Sylfaen ar safle Ysgol Abersoch, a CA2 ar safle’r ysgol gyfagos |
| **Opsiwn 5** | Ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos gan leoli’r Cyfnod Sylfaen + Blwyddyn 3+4 + Blwyddyn 5 a 6 ar safle 3 ysgol wahanol |
| **Opsiwn 6** | Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i’r disgyblion mewn ysgol amgen |
| **Opsiwn 7** | Lleoli canolfan iaith ar safle Ysgol Abersoch |
| **Opsiwn 8** | Sefydlu Cylch Meithrin yn Ysgol Abersoch* |
| **Opsiwn 9** | Newid ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-9 oed + sefydlu Cylch Meithrin yn Ysgol Abersoch |

**Dylid nodi fod sefyllfa’r ysgol wedi datblygu ers cynnal y cyfarfodydd lleol yn nhymor yr Hydref 2019 o ganlyniad i agoriad Cylch Meithrin a Chylch ti a fi Abersoch (sydd wedi ei leoli ar safle’r ysgol). Mae datblygiad y cylch meithrin a’i effeithiau posib wedi ei gynnwys fel ystyriaeth o dan yr holl opsiynau, gan gynnwys yr opsiwn Dim Newid (Y Status Quo).*

## 6.1 Cymharu Opsiynau

Cwblhawyd gwerthusiad o’r holl opsiynau er mwyn crynhoi prif gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau'r opsiynau o dan ystyriaeth. Gwerthuswyd yr holl opsiynau yn erbyn ffactorau'r Strategaeth Addysg Gynradd o’r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd gan roi ystyriaeth i’r Cod Trefniadaeth Ysgolion, ac ystyriaethau perthnasol eraill.

Yn unol â strategaeth ‘*Addysg Gynradd o’r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd’* ystyriwyd nifer o ffactorau wrth werthuso’r opsiynau, yn benodol:

i. Maint dosbarthiadau
ii. Niferoedd disgyblion
iii. Arweinyddiaeth a Staffio
iv. Y Gymuned
v. Adnoddau Ariannol
vi. Yr Iaith Gymraeg
vii. Ffactorau Daearyddol

Mae copi o'r gwerthusiad opsiynau llawn wedi ei gynnwys yn **Atodiad 1.**

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r rhesymau dros beidio â bwrw ymlaen â'r opsiynau isod:

| Opsiwn | Disgrifiad | Rhesymau dros beidio ag bwrw ymlaen â'r opsiwn |
|---|---|---|
| **Status Quo** | Gwneud Dim. Parhau gyda'r sefyllfa bresennol. | Rhagwelir y byddai niferoedd disgyblion yn parhau'n isel i'r dyfodol yn seiliedig ar y rhagamcanion niferoedd, dosbarthiadau'n parhau'n fychain, ac ystod oedan eang o fewn dosbarthiadau yn parhau. Tra'n cydnabod effaith gadarnhaol posib y gall lleoli cylch meithrin ar safle Ysgol Abersoch ei gael ar y niferoedd, nid oes modd gwarantu hyn, a rhagwelir y byddai'r heriau'n parhau. |
| **Opsiwn 2 (a)** | Newid ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed | Caiff yr opsiwn yma ei ystyried ymhellach gan y byddai'n cysoni'r ystod oed gyda gweddill ysgolion y sir, ac yn golygu fod yr ysgol yn gallu cynnig darpariaeth CA2 cyflawn. Gallai hynny o bosib gryfhau sefyllfa'r ysgol. |
| **Opsiwn 2 (b)** | Newid ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-9 oed | Ni ragwelir y byddai ychwanegu un flwyddyn addysgol yn arwain at gynnydd digonol yn y niferoedd. O ganlyniad, byddai'r heriau sy'n wynebu'r ysgol yn parhau. Ni fyddai'n caniatáu i'r ysgol gynnig darpariaeth Cyfnod Allweddol 2 cyflawn. Byddai'r disgyblion yn parhau i drosglwyddo i Ysgol Sarn Bach er mwyn cwblhau eu haddysg gynradd. |
| **Opsiwn 3** | Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos | Caiff yr opsiwn yma ei ystyried ymhellach gan y gallai gryfhau sefyllfa'r ysgol drwy alluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, TG, adeiladau ac arbenigeddau. |
| **Opsiwn 4** | Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan leoli'r Cyfnod Sylfaen ar safle Ysgol Abersoch, a CA2 ar safle'r ysgol gyfagos | Rhagwelir y byddai'r opsiwn hwn yn arwain at gynnydd yn niferoedd ddisgyblion CS Ysgol Abersoch, ond yn lleihau niferoedd yr ysgol gyfagos. Byddai amrediad oedran hyd at 4 mlynedd yn parhau yn y dosbarth CS a'r dosbarth CA2. Er y byddai'n lleihau'r swm gwarchodaeth ariannol yn Ysgol Abersoch, mae'n bosib y byddai'n arwain at sefyllfa ble y byddai'r ddwy ysgol sydd yn rhan o'r ffederasiwn yn ddibynnol ar ddyraniad cyllidol ychwanegol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio. |
| **Opsiwn 5** | Ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos gan leoli'r Cyfnod Sylfaen, Blwyddyn 3+4, Blwyddyn 5 a 6 ar safle 3 ysgol wahanol | Rhagwelir y byddai'r opsiwn hwn yn arwain at gynnydd yn niferoedd ddisgyblion CS Ysgol Abersoch, ond yn lleihau niferoedd y ddwy ysgol gyfagos. Byddai amrediad oedran hyd at 4 mlynedd yn parhau yn y dosbarth CS. Er y byddai'n lleihau'r swm gwarchodaeth ariannol yn Ysgol Abersoch, |

| | | |
|---|---|---|
| | | mae'n bosib y byddai'n arwain at sefyllfa ble mae'r dair ysgol sydd yn rhan o'r ffederasiwn yn ddibynnol ar ddyraniad cyllidol ychwanegol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio. |
| **Opsiwn 6** | Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion mewn ysgol amgen | Caiff yr opsiwn yma ei ystyried ymhellach gan y byddai'n golygu fod disgyblion yn cael eu haddysgu gyda'u cyfoedion mewn dosbarthiadau o faint mwy hyfyw a chynaliadwy i'r dyfodol. |
| **Opsiwn 7** | Lleoli canolfan iaith ar safle Ysgol Abersoch | Er y byddai'n gwneud gwell defnydd o'r adeilad, nid yw lleoli canolfan iaith mewn ysgol yn arferol yn denu plant. O ganlyniad, ni ragwelir y byddai'n effeithio ar niferoedd, rhagamcanion na maint dosbarthiadau. |
| **Opsiwn 8** | Sefydlu Cylch Meithrin yn Ysgol Abersoch | Tra'n cydnabod effaith gadarnhaol bosib y gall lleoli cylch meithrin ar safle Ysgol Abersoch gael ar y niferoedd, nid oes modd gwarantu hyn. Rhagwelir y byddai niferoedd ynghyd â'r rhagamcanion yn parhau'n isel, dosbarthiadau yn parhau'n fychain, ac ystod oedran eang o fewn dosbarthiadau yn parhau. |
| **Opsiwn 9** | Newid ysgol oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-9 oed + sefydlu Cylch Meithrin yn Ysgol Abersoch | Tra'n cydnabod effaith gadarnhaol bosib y gall lleoli cylch meithrin ar safle Ysgol Abersoch ei gael ar y niferoedd, nid oes modd gwarantu hyn Rhagwelir y byddai niferoedd a'r rhagamcanion yn parhau'n isel, dosbarthiadau yn parhau'n fychain, ac ystod oedran eang o fewn dosbarthiadau yn parhau. |

Cydnabyddir bod nifer o'r opsiynau uchod yn gwneud defnydd gwell o'r adeilad, megis lleoli canolfan iaith a/neu Gylch Meithrin ar safle'r ysgol. Serch hynny, yn dilyn gwerthuso'r opsiynau yn erbyn ffactorau'r Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd, daethpwyd i'r casgliad nad oedd yr opsiynau hyn yn llwyddo i gwrdd â, na datrys y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu (*fel y manylir yn adran 5.1*).

## 6.2 Opsiynau Amgen

Yn dilyn gwerthuso manteision ac anfanteision yr opsiynau uchod yn erbyn ffactorau yn y strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd, daeth 3 opsiwn i'r amlwg fel y rhai a fyddai fwyaf hyfyw a realistig i gyfarch sefyllfa'r ysgol wedi eu mesur yn erbyn y sefyllfa bresennol, sef:

| | |
|---|---|
| **Opsiwn 2 (a)** | Newid ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed |
| **Opsiwn 3** | Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos. |
| **Opsiwn 6** | Cau Ysgol Abersoch a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen*. |

** Ystyriwyd mai Ysgol Sarn Bach a fyddai'n cael ei henwi fel yr 'ysgol amgen', a manylir y rhesymau am hynny yn adran 6.4.*

Mae'r ddogfen hon yn manylu ac yn ymhelaethu ar sefyllfa fregus yr ysgol a'r angen i gymryd camau pellach i'w cyfarch. Tra bod yr opsiwn o gynnal y sefyllfa gyfredol wedi ei hystyried dengys y gwerthusiad o'r opsiynau na fyddai'n mynd i'r afael â'r problemau sydd dan sylw.

## 6.3 Asesiadau Effaith

Cynhaliwyd nifer o asesiadau effaith yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, o'r opsiynau y credir y byddai fwyaf hyfyw a realistig i gyfarch sefyllfa'r ysgol. Fel y nodwyd uchod, yr opsiynau hyn oedd Opsiwn 2 (a) Newid ystod oedran yr ysgol, Opsiwn 3 Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos ac Opsiwn 6 Cau Ysgol Abersoch a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen.

### *6.3.1. Asesiad o'r Effaith Tebygol ar Ansawdd a Safonau Addysg*

*Newid ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed.*

Dengys yr Asesiad o'r Effaith Tebygol ar Ansawdd a Safonau Addysg na ragwelir y byddai ymestyn ystod oedran yr ysgol yn cael effaith negyddol ar ansawdd a safonau'r addysg a ddarperir yn yr ysgol. Byddai ymestyn yr ystod oed yn cynyddu cyflenwad CA2 yr ysgol.

*Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos*.

Dengys yr Asesiad o'r Effaith Tebygol ar Ansawdd a Safonau Addysg y rhagwelir y byddai ffederaleiddio yn effeithio'n bositif ar y meini prawf profiadau addysgu a dysgu yn ogystal ag ar arweinyddiaeth a rheolaeth. Yn ddibynnol ar yr union fodel ffederal, gallai gweithredu model o'r fath arwain at arbed amser y Pennaeth drwy gynllunio ar draws y ffederasiwn yn hytrach nac ar gyfer ysgolion unigol.

*Cau Ysgol Abersoch a'r disgyblion i gael eu haddysgu yn Ysgol Sarn Bach.*

Yn seiliedig ar ganlyniad yr asesiad o'r Effaith Tebygol ar Ansawdd a Safonau Addysg, deuir i'r casglid fod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Sarn Bach ar yr un lefel â safon yr addysg yn Ysgol Abersoch. O ganlyniad felly, ni ragwelir y byddai unrhyw effaith negyddol o safbwynt ansawdd a safonau addysg yn deillio o'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Sarn Bach. Mae'r wybodaeth yn yr asesiad yn dilyn arolygon diweddaraf Estyn yn yr ysgolion dan sylw yn nodi fod pob un o'r ysgolion wedi eu gosod mewn categori cyfatebol fan lleiaf i Ysgol Abersoch, a phob un o'r ysgolion wedi eu gosod yn y categori melyn, neu wyrdd o safbwynt categori cefnogaeth Llywodraeth Cymru.

Byddai gwireddu'r opsiwn hwn yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gael eu haddysgu mewn grwpiau o gyfoedion sydd â llawer llai o amrediad oedran a chyfle i wella profiad addysgiadol a chymdeithasol y disgyblion, yn ddyddiol. Bydd anghenion unrhyw grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ac anghenion dysgu ychwanegol, yn cael ei asesu a'i weithredu yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r awdurdod.

Manylir ymhellach ar ansawdd a safonau addysg yn Adran 7.2 o'r ddogfen hon a gweler yr asesiad llawn o'r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg ar y wefan www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg.

### *6.3.2. Asesiad o'r Effaith Debygol ar Wahanol Drefniadau Teithio*

*Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed.*
Dengys yr Asesiad o'r Effaith Tebygol ar Wahanol Drefniadau Teithio na fyddai newid ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed yn effeithio ar drefniadau teithio'r ysgol, gan y byddai'r model yn golygu fod y disgyblion presennol yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Abersoch.

*Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos*.
Dengys yr Asesiad o'r Effaith Tebygol ar Wahanol Drefniadau Teithio na fyddai ffederaleiddio gydag ysgol neu ysgolion eraill yn debygol o effeithio ar drefniadau teithio'r ysgol, gan y byddai'r model yn golygu fod y disgyblion presennol yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Abersoch.

*Cau Ysgol Abersoch a'r disgyblion i gael eu haddysgu yn Ysgol Sarn Bach.*
Byddai'r opsiwn o gau'r ysgol yn golygu fod angen i ddisgyblion Ysgol Abersoch deithio yn bellach i'w hysgol bob dydd. Mae Ysgol Sarn Bach wedi ei lleoli 1.4 milltir o Ysgol Abersoch, ac amcangyfrifir fod y daith o ddeutu 5 munud bob ffordd mewn car neu fws sydd o fewn y pellter rhesymol y disgwylir i blant cynradd ei deithio i'w hysgol yn unol â'r '*Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i blant Gwynedd*' o 30 munud bob ffordd.

Bydd cludiant i'r ysgol amgen yn cael ei gynnig yn unol â Pholisi Cludiant Cyngor Gwynedd.

Manylir ymhellach ar drefniadau teithio a chludiant yn Adran 7.10 o'r ddogfen hon a gweler copi o'r asesiad llawn o'r Effaith Tebygol ar Drefniadau Teithio ar y wefan www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg.

### 6.3.3. Asesiad o'r Effaith Tebygol ar y Gymuned

*Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed.*
Dengys yr asesiad o'r Effaith Tebygol ar y Gymuned na ragwelir y byddai newid ystod oedran yr ysgol yn cael effaith ar y gymuned, gan y byddai presenoldeb a gweithgarwch yr ysgol yn parhau yn y gymuned, yn unol â'r sefyllfa bresennol.

*Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos*.
Dengys yr asesiad o'r Effaith Tebygol ar y Gymuned na ragwelir y byddai ffederaleiddio yn cael effaith ar y gymuned, gan y byddai presenoldeb a gweithgarwch yr ysgol yn parhau yn y gymuned, yn unol â'r sefyllfa bresennol.

*Cau Ysgol Abersoch a'r disgyblion i gael eu haddysgu yn Ysgol Sarn Bach.*
Yn gryno, nodai asesiad o'r effaith ar y Gymuned y byddai peth effaith negyddol ar y gymuned yn deillio o weithredu'r opsiwn o gau Ysgol Abersoch a'r disgyblion i gael eu haddysgu yn Ysgol Sarn Bach. Serch hynny, nodir fod 35% o'r disgyblion (M-Bl.3) sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach, ac o ganlyniad, deuir i'r casgliad fod cysylltiad rhwng yr ysgol â'r ardal ehangach yn bodoli eisoes.

I liniaru unrhyw effaith negyddol posib ar y gymuned pe gweithredir y cynnig, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael eu cynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol.

Manylir ymhellach am yr effaith ar y gymuned yn Adran 7.8 o'r ddogfen hon a gweler yr asesiad llawn ar yr effaith tebygol ar y Gymuned ar y wefan www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg.

## 6.4 Gwerthusiad o'r Opsiynau i'w ystyried ar gyfer yr ysgol

*Newid ystod oedran Ysgol Abersoch*

Trafodwyd ac ystyriwyd 2 opsiwn i ymestyn ystod oedran Ysgol Abersoch, sef ymestyn i 3-9 oed ac ymestyn i 3-11 oed.

Dylid nodi mai'r opsiwn a ffafriwyd yn lleol oedd yr opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol i 3-9 oed, gan gynnwys datblygiad y cylch meithrin. Ffafriwyd yr opsiwn yma'n lleol am resymau ymarferol megis gwell defnydd o'r gofod gwag yn adeilad yr ysgol gan ddarparu lleoliad ar gyfer y Cylch Meithrin, ac i liniaru'r effaith

bosib allasai'r newid ei gael ar niferoedd Ysgol Sarn Bach (yr ysgol sydd yn darparu addysg i ddisgyblion 9-11 oed ardal Ysgol Abersoch).

O gymharu'r ddau opsiwn, daethpwyd i'r canlyniad mai'r opsiwn gorau ar gyfer ystyriaeth bellach oedd yr opsiwn i ymestyn yr ystod oed i 3-11 oed. Diystyriwyd yr opsiwn 3-9 oed am y rhesymau a ganlyn:

- Ni ragwelir y byddai ychwanegu un blwyddyn addysgol yn arwain at gynnydd digonol yn y niferoedd. O ganlyniad, byddai'r heriau sy'n wynebu'r ysgol yn parhau.
- Ni fyddai'r ystod oed yn gyson gyda mwyafrif ysgolion cynradd y sir.
- Ni fyddai'n caniatáu i'r ysgol gynnig darpariaeth CA2 cyflawn. Byddai'r disgyblion yn parhau i drosglwyddo i Ysgol Sarn Bach er mwyn cwblhau eu haddysg gynradd.

Credir y byddai'r opsiwn i ymestyn yr ystod oed i 3-11 oed yn cynnig mwy o fanteision o safbwynt cyfle i godi niferoedd yr ysgol o'i gymharu â'r opsiwn i ymestyn yr ystod oed i 3-9 oed. Byddai'r opsiwn hefyd yn cysoni'r ystod oed gyda gweddill ysgolion cynradd y sir, ac yn golygu fod yr ysgol yn cynnig darpariaeth CA2 cyflawn.

Er mwyn i'r opsiwn ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol, byddai'n rhaid i'r cynnydd yn y niferoedd fod yn sylweddol. Fodd bynnag, mae'n debygol y byddai unrhyw gynnydd yn y niferoedd yn Ysgol Abersoch o ganlyniad i ymestyn yr ystod oed, yn arwain at leihad yn niferoedd Ysgol Sarn Bach, ac o bosib, yn yr ysgolion cyfagos.

Yn dilyn ystyriaeth bellach, daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r opsiwn yn ddatrysiad cynaliadwy i'r dyfodol ar gyfer yr ysgol, ac y gallai gael effaith niweidiol ar niferoedd disgyblion yr ysgolion cyfagos.

*<u>Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos</u>.*

Fel y gwelir yn y tabl uchod (6.1) trafodwyd ac ystyriwyd 3 fersiwn gwahanol o'r opsiwn ffederaleiddio. Daethpwyd i'r casgliad mai'r opsiwn oedd fwyaf rhesymol i'w hystyried ymhellach oedd yr opsiwn i ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos.

Byddai'r model yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Abersoch trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol gyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un Corff Llywodraethol. Byddai Cyrff Llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai Corff Llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (gan gynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn gallu cael eu cadw, neu eu haddasu er mwyn adlewyrchu hunaniaeth y ffederasiwn newydd. Byddai model o'r math hwn hefyd yn galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, TG, adeiladau, ac arbenigeddau.

Fodd bynnag, mae'n annhebygol y byddai'r opsiwn yn cyfarch y prif heriau y mae'r ysgol yn ei hwynebu megis niferoedd isel, maint dosbarthiadau bychan, ac o ganlyniad, byddai heriau cyllidol yr ysgol yn parhau.

Bu trafodaethau gyda phenaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr y ddwy ysgol gyfagos (Ysgol Sarn Bach ac Ysgol Llanbedrog), parthed yr opsiwn i sefydlu ffederasiwn gydag Ysgol Abersoch.

Yn dilyn pwyso a mesur rhinweddau a gwendidau'r model, daethpwyd i'r casgliad na fyddai ffederaleiddio yn ddatrysiad cynaliadwy ar gyfer yr ysgol. Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. O ganlyniad felly, pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei wireddu, rhagwelir y byddai'r her o niferoedd isel, maint dosbarthiadau bychain, a'r heriau cyllidol y mae'r ysgol yn eu wynebu yn parhau.

Ystyrir felly nad ffederaleiddio yw'r opsiwn gorau ar gyfer sefyllfa'r ysgol.

*Cau Ysgol Abersoch a'r disgyblion i gael eu haddysgu yn Ysgol Sarn Bach.*

Mae'r model yma yn golygu cau Ysgol Abersoch a symud y disgyblion i'w haddysgu yn Ysgol Sarn Bach. Cyflwynir y cynnig hwn yn dilyn gwerthusiad o'r opsiynau, gyda'r canlyniad na fyddai opsiwn arall yn mynd i'r afael â'r prif heriau sy'n wynebu'r ysgol. Manylir ar y cynnig yma ymhellach yn y ddogfen.

Ystyrir Ysgol Sarn Bach fel yr 'ysgol amgen' am y rhesymau canlynol:

i. Ysgol Sarn Bach yw'r ysgol ddaearyddol agosaf at Ysgol Abersoch. Mae'r ysgol wedi ei lleoli 1.4 milltir o safle Ysgol Abersoch.
ii. Mae Ysgol Sarn Bach eisoes yn derbyn disgyblion o Ysgol Abersoch ym mlwyddyn 4.
iii. Mae 35% o blant (Meithrin – Bl. 3) dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach.
iv. Mae gan Ysgol Sarn Bach gapasiti digonol i dderbyn disgyblion presennol Ysgol Abersoch.

Yn dilyn hyn, cynigir ymestyn dalgylch Ysgol Sarn Bach i gynnwys dalgylch Ysgol Abersoch ar gyfer y dyfodol.

# 7. Y Cynnig

## Crynodeb o'r Cynnig

Yn dilyn gwerthusiad o'r opsiynau, y cyfeiriad a ffafrir a'r cynnig sy'n destun yr ymgynghoriad statudol hwn yw cau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021, gyda'r disgyblion i gael eu haddysgu yn Ysgol Sarn Bach, sef yr 'Ysgol amgen', o 1 Medi 2021.

| | | |
|---|---|---|
| **Ysgol Amgen** | Ysgol Sarn Bach | |
| **Ystod oedran** | 3-11 oed | |
| **Categori'r ysgol (cymunedol, gwirfoddol a gynorthwyir, gwirfoddol a reolir)** | Cymunedol | |
| **Categori Iaith** | Cyfrwng Cymraeg | |
| **Dyddiad gweithredu** | 1 Medi 2021 | |
| **Niferoedd a ragwelir - Medi 2021** | *Meithrin*<br>5 | *Derbyn – Bl.6*<br>47 |
| **Capasiti (yn seiliedig ar Gylchlythyr Llywodraethwyr Cynulliad Cymru 21/2011 'Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru)** | *Meithrin*<br>7 | *Derbyn – Bl.6*<br>66 |
| **Ansawdd yr adeilad a'r ystafelloedd dosbarth (Categori Cyflwr Adeilad)** | B | |

Yn bresennol statws cymunedol sydd gan Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, o ganlyniad, cynigir, yn nhermau categori cyfreithiol, mai statws 'gymunedol' yw'r opsiwn ar gyfer yr ymgynghoriad statudol.

Fel gyda pob sefyllfa debyg, mae gan rieni'r hawl i ddewis lleoliad amgen ar gyfer eu plant os ydynt yn dymuno.

Mi fyddai'r opsiwn yma'n golygu y byddwn yn:

a) Lleihau niferoedd llefydd gweigion o fewn yr ysgolion
b) Cynnig profiadau i ddisgyblion i gymdeithasu a chydweithio yn ddyddiol gyda chyfoedion
c) Addysgu'r plant mewn dosbarthiadau o faint mwy addas
d) Lleihau'r amrediad o lwfans y pen ar gyfer holl ddisgyblion y Sir
e) Sicrhau bod plant yn trosglwyddo un waith yn ystod eu haddysg gynradd ac uwchradd yn hytrach na dwywaith

Ceir rhai o'r rhesymau pam mai'r opsiwn hwn yw'r opsiwn a ffafrir a pham mai hwn sy'n destun y cyfnod ymgynghori statudol yn yr adran hon.

## 7.1. Rheswm dros y Cynnig

Mae Cyngor Gwynedd yn ymgynghori ar gynnig arfaethedig i gau Ysgol Abersoch gan fod angen cyfarch sefyllfa fregus yr ysgol. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser. O ganlyniad, mae'r ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys:

- **Niferoedd disgyblion isel:** Yn Medi 2020, roedd 8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgyblion meithrin wedi eu cofrestru yn yr ysgol.
- **Rhagamcanion niferoedd:** Rhagwelir y bydd y niferoedd yn parhau yn isel dros y blynyddoedd nesaf (Medi 2021 = 10; Medi 2022 = 12; Medi 2023 = 12.)
- **Canran uchel o lefydd gweigion:** Yn seiliedig ar ffigyrau Medi 2020, mae o ddeutu 76% o lefydd gweigion yn yr ysgol (26 mewn nifer) (Derbyn – Bl.3)
- **Maint dosbarthiadau bychain:** Mae'r 10 disgybl yn cael eu dysgu mewn un dosbarth cymysg eu hoedran.
- **Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau:** Addysgir y disgyblion mewn un dosbarth gydag amrediad oed hyd at 5 mlynedd.

## 7.2 Ansawdd yr Addysg

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu addysg o'r ansawdd gorau bosibl a fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn.

Un o'r blaenoriaethau yw darparu'r profiadau dysgu gorau bosibl ar gyfer pob dysgwr o fewn y Sir, gan sicrhau cwricwlwm cyffrous ac eang, yn ogystal â gweithgareddau allgyrsiol sy'n eu hysgogi i ddysgu a deall, a fydd yn arwain at wella safonau.

Mae arweinyddiaeth, llywodraethu da a strwythur rheoli yn ffactorau allweddol o ran cael ysgolion sy'n tanberfformio i wella eu perfformiad yn y pen draw.

### *7.2.1. Crynodeb o adroddiadau Estyn:*

| Ysgol | Blwyddyn yr archwiliad | Pa mor dda yw'r deilliannau? | Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? |
|---|---|---|---|---|
| **Abersoch** | **Mehefin 2017** | **Da** | **Da** | **Da** |

*(Noder fod Estyn wedi cyflwyno 5 maes i'w harchwilio erbyn Hydref 2017.)*

| Ysgol | Blwyddyn yr archwiliad | Safonau | Lles ac agweddau at ddysgu | Addysgu a phrofiadau dysgu | Gofal, cymorth ac arweiniad | Arweinyddiaeth a rheolaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sarn Bach** | **Hydref 2017** | **Da** | **Da** | **Da** | **Da** | **Da** |

*Ffynhonnell: Gwefan Estyn*

Noda arolygon diweddar Estyn fod y ddwy ysgol yn darparu addysg o ansawdd 'Da'. Os gwireddir y cynnig arfaethedig, bydd cyfle i ddisgyblion gael eu haddysgu mewn grwpiau o gyfoedion sydd â llai o amrediad oedran a chyfle i wella profiadau allgyrsiol a chymdeithasol y disgyblion.

### *7.2.2. Ansawdd yr Addysg a Safonau yn y Ddwy Ysgol sydd yn Rhan o'r Ymgynghoriad:*

Mae adroddiadau arolygon Estyn yn nodi bod safon darpariaeth addysg y ddwy ysgol yn dda.

Cafodd Ysgol Abersoch ei harolygu diwethaf ym mis Mehefin 2017, ble daethpwyd i'r casgliad fod perfformiad presennol yr ysgol yn 'Dda'. Yn 2019, gosodwyd yr ysgol yn y categori melyn o ran cefnogaeth a gallu'r ysgol i wella gan Lywodraeth Cymru.

Bu i Ysgol Sarn Bach gael ei harolygu ddiwethaf ym mis Hydref 2017, ble daethpwyd i'r casgliad fod perfformiad presennol yr ysgol yn 'Dda'. Yn 2019, gosodwyd Ysgol Sarn Bach yn y categori melyn gan Lywodraeth Cymru o ran cefnogaeth a gallu'r ysgol i wella. Mae'r ysgol amgen yn cynnig addysg o ansawdd cyfatebol fan lleiaf, gan gynnig mwy o brofiadau i'r disgyblion gydweithio a chymdeithasu gyda'u cyfoedion, ac yn galluogi'r disgyblion i fanteisio ar ystod o brofiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol.

*Ysgol Abersoch*

Yn ystod yr arolwg diwethaf gan Estyn (Mehefin 2017) nodwyd fod perfformiad Ysgol Abersoch yn dda. Nodwyd fod

*"llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu"*

Yn ogystal, nodwyd fod medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn, er fod eu medrau sylfaenol wrth ddechrau'r ysgol yn is na'r disgwyl, gyda'r Gymraeg yn iaith newydd i'r mwyafrif ohonynt. Nodir, yn gyffredinol, fod llawer yn gwneud cynnydd da ar draws yr ysgol yn eu medrau darllen a rhifedd. Nodir hefyd fod bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chyngor.

*Ysgol Sarn Bach*

Yn ystod yr arolwg diwethaf yn Hydref 2017, nodwyd fod perfformiad yr ysgol yn dda.

*"Mae lles disgyblion yn ganolog i waith yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda, maent yn awyddus i ddysgu ac yn dangos parch tuag at eraill."*

Yn ogystal nodwyd fod yr ysgol yn elwa o arweinyddiaeth glir sy'n seiliedig ar godi safonau a sicrhau lles da'r disgyblion.

Ni fydd y cynnig yn cael effaith ar ddarpariaeth y cwricwlwm llawn gan gynnwys y cyfnod sylfaen gan fod Ysgol Sarn Bach eisoes yn darparu addysg yn y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn bresennol.

Lefel Cyrhaeddiad

Mae Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr ag amryw o bartneriaid ac arbenigwyr, wedi mynd ati i adolygu'r system atebolrwydd i ysgolion yng Nghymru.

Roedd gohebiaeth ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Estyn i Gadeiryddion Craffu, Aelodau Cabinet, Cyfarwyddwyr Addysg, Prif Swyddogion Gweithredol, a Rheolwyr Gyfarwyddwyr Consortia Addysg Rhanbarthol, a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2019 yn datgan:

"Mae'n wrthgynhyrchiol rhoi pwysau anghymesur ar ysgolion ar sail mesurau unigol. Nid yw'n llesol i welliant ysgol, a gallai danseilio y newid parhaus mewn diwylliant yr ydym ni'n gweithio gyda'n gilydd i'w gyflawni. Disgwyliwn i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gefnogi ysgolion i wneud penderfyniadau priodol am eu cwricwlwm i osgoi culhau'r dewis i ddysgwyr.

Ar y cyd, rydym wedi cytuno mai dyma'r ffordd gywir i weithredu, ac fe'ch cynghorwn yn gryf i ddefnyddio ystod eang o wybodaeth a data heb ei gyfuno, fel bod modd i chi gyflawni eich dyletswyddau wrth adrodd ar berfformiad ysgolion. Bydd arfarnu perfformiad ysgolion unigol yn hytrach na chynhyrchu data wedi'i gyfuno ar lefel awdurdod lleol yn fwy buddiol ar gyfer cefnogi a herio ysgolion unigol i wella."

O ganlyniad, nid oes modd cyhoeddi data perfformiad, ac nid oes modd dwyn cymariaethau mewn perfformiad.

Er hynny, yn 2019, gallwn nodi fod safonau'r Cyfnod Sylfaen yn Awdurdod Lleol Gwynedd yn gyffredinol dda, a bod perfformiad Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach yn y Dangosydd Cyfnod Sylfaen gystal â'i gilydd.

Mae'r tabl isod yn dangos asesiad o effaith tebygol y cynnig ar bum maes arolygu perthnasol Estyn.

| **Meini Prawf Effaith** | **Disgrifiad** | **Statws o'r effaith a'r gwaith** |
|---|---|---|
| Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau | Roedd canlyniad arolwg Estyn ar gyfer y dangosyddion safonau Ysgol Abersoch yn 'Dda', fel ag yr oedd canlyniad arolwg Ysgol Sarn Bach. Yn seiliedig ar wybodaeth yr arolygon diwethaf (2017) ni ragwelir unrhyw effaith drwy addysgu'r plant yn Ysgol Sarn Bach. | Niwtral |
| Llesiant ac agweddau at ddysgu | 'Digonol' oedd canlyniad y dangosydd 'Lles' ar gyfer Ysgol Abersoch, yn eu harolwg diwethaf yn 2017, tra bod y canlyniad yn Ysgol Sarn Bach yn 'Dda'. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, deuir i'r casgliad y byddai addysgu'r plant yn Ysgol Sarn Bach yn cael effaith bositif. | Positif |
| Profiadau addysgu a dysgu | 'Digonol' oedd canlyniad y dangosydd 'profiadau dysgu' yn Ysgol Abersoch, a 'da' oedd canlyniad y dangosydd 'addysgu'. Roedd canlyniad arolwg Estyn ar gyfer dangosyddion 'Addysgu a phrofiadau dysgu' yn 'Dda' yn Ysgol Sarn Bach yn 2017. O ganlyniad, bernir y byddai'r opsiwn o bosib yn cael effaith bositif ar brofiadau addysgu a dysgu'r disgyblion. Gall Ysgol Sarn Bach gynnig cyfle i addysgu mewn grwpiau mwy a gyda chyfoedion i ehangu ar eu profiadau a'u gallu i addysgu'n annibynnol. | Positif |
| Arweiniad a chymorth gofal | Roedd canlyniad y dangosyddion 'Arweiniad a chymorth gofal' yn 'Dda' yn arolwg diwethaf Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach. Yn seiliedig ar y wybodaeth yma, ni ragwelir unrhyw effaith ar y maes yma trwy addysgu'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach. | Niwtral |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Nodwyd yn adroddiad Estyn diwethaf Ysgol Abersoch fod yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn yr ysgol yn 'Dda'. Rhoddwyd Ysgol Sarn Bach yn y categori 'Da' yn ogystal. | Niwtral |
| Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholisi'r Awdurdod, fel ym mhob ysgol yng Ngwynedd. | Niwtral |
| Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY) | Roedd canlyniad arolwg estyn ar gyfer y dangosyddion safonau Ysgol Abersoch yn 'Dda', fel ag yr oedd canlyniad arolwg Ysgol Sarn Bach. Yn seiliedig ar wybodaeth yr arolygon diwethaf (2017) ni ragwelir unrhyw effaith drwy addysgu'r plant yn Ysgol Sarn Bach. | Niwtral |

*Mae'r tabl uchod wedi'i gymryd o'r Asesiad Effaith Debygol ar Safonau ac Ansawdd Addysg ac yn seiliedig ar wybodaeth adroddiad Estyn Ysgol Abersoch (Mehefin 2017) ac Ysgol Sarn Bach (Hydref 2017) – gweler yr asesiad llawn ar y wefan [www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg](www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg)*

## 7.3 Maint Dosbarthiadau ac Ystod Oedran Priodol

Ein disgwyliad yw y bydd dosbarthiadau o faint priodol mewn ysgolion cynradd, cyn belled ag y bo modd, fel bod plant o fewn y sir yn derbyn y profiadau a'r cyfleoedd gorau posibl.

Mae Cyngor Gwynedd yn anelu i gael maint dosbarthiadau addas, gyda dim mwy na dau ystod oedran o fewn yr un dosbarth yn y cynradd.

Ym mis Medi 2020, roedd holl ddisgyblion Ysgol Abersoch (Meithrin i Bl.3) yn cael eu haddysgu mewn un dosbarth gyda 10 disgybl. Cyfartaledd maint dosbarthiadau Ysgol Sarn Bach yn Medi 2020 yw 24.

Dengys y tabl isod maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach yn Medi 2020.

| Ysgol | Meithrin | Derbyn | Bl 1 | Bl2 | Bl 3 | Bl 4 | Bl 5 | Bl 6 | Cyfanswm | Nifer y dosbarthiadau | Dosbarth mwyaf | Dosbarth lleiaf | Maint dosbarth ar gyfartaledd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abersoch | 2 | 3 | 2 | - | 3 | - | - | - | **10** | **1** | **10** | **10** | **10** |
| Sarn Bach | 3 | 2 | 5 | 4 | 8 | 5 | 10 | 11 | **48** | **2** | **34** | **14** | **24** |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2020*

Byddai gwireddu'r cynnig arfaethedig yn golygu fod disgyblion Ysgol Abersoch yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau mwy hyfyw, a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran.

Os gweithredir y cynnig, disgwylir y bydd Corff Llywodraethol Ysgol Sarn Bach yn rhoi sylw priodol i bennu maint dosbarthiadau a dosbarthiad adnoddau staff yr ysgol.

## 7.4 Niferoedd Disgyblion a Llefydd Gweigion

Yn ôl rhagamcanion Medi 2020, rhagwelir y bydd niferoedd Ysgol Abersoch yn parhau'n isel dros y 5 mlynedd nesaf:

**Tabl 1 – Amcangyfrifon niferoedd Ysgol Abersoch**

| | M | D | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Medi 2020 | 2 | 3 | 2 | 0 | 3 | - | - | - | **10** |
| Amcangyfrif Medi 2021 | 3 | 2 | 3 | 2 | 0 | - | - | - | **10** |
| Amcangyfrif Medi 2022 | 2 | 3 | 2 | 3 | 2 | - | - | - | **12** |
| Amcangyfrif Medi 2023 | 2 | 2 | 3 | 2 | 3 | - | - | - | **12** |
| Amcangyfrif Medi 2024 | 2 | 2 | 2 | 3 | 2 | - | - | - | **11** |
| Amcangyfrif Medi 2025 | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 | - | - | - | **11** |

Dengys y tabl isod y rhagolygon ar gyfer yr ysgolion cyfagos petai'r cynnig yn cael ei weithredu (Ysgol Sarn Bach yn cynnwys niferoedd Derbyn – Bl. 3 Ysgol Abersoch):

| Niferoedd Derbyn – Bl. 6 | Ysgol Sarn Bach | Ysgol Llanbedrog | Ysgol Foel Gron | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Amcangyfrif Medi 2021 | 47 | 84 | 39 | **170** |
| Amcangyfrif Medi 2022 | 41 | 84 | 33 | **158** |
| Amcangyfrif Medi 2023 | 38 | 82 | 32 | **152** |
| Amcangyfrif Medi 2024 | 31 | 78 | 28 | **137** |
| Amcangyfrif Medi 2025 | 26 | 73 | 30 | **129** |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2020*

O ganlyniad i'r niferoedd isel o ddisgyblion, mae nifer o lefydd gweigion yn Ysgol Abersoch (Derbyn – Bl.3) 26 (76%). Mae 21 (32%) o lefydd gweigion yn Ysgol San Bach. Wrth gynnwys capasiti a niferoedd Meithrin y ddwy ysgol, mae gan Ysgol Abersoch 32 (75%) o lefydd gweigion ac Ysgol Sarn Bach 25 (34%) o lefydd gweigion.

Gyda 21 o lefydd gweigion, (a 4 lle gwag yn y Meithrin), mae gan Ysgol San Bach gapasiti digonol ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, am y bum mlynedd nesaf.

Ar hyn o bryd, rhwng Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, mae 47 (47%) o lefydd gweigion yn yr ardal. Byddai gwireddu'r cynnig arfaethedig yn gostwng llefydd gweigion yr ardal i 19 (29%) (Derbyn – Bl.6)

## 7.5 Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod pwysigrwydd arweiniad cryf mewn ysgol fel ffordd o gynnal a gwella safonau. Mae'r camau canlynol ar waith er mwyn sicrhau arweinyddiaeth gref yn ysgolion Gwynedd ar gyfer y dyfodol:

- GwE yn hyfforddi un uwch-reolwr o bob ysgol uwchradd i ddatblygu eu sgiliau arwain personol, a hefyd i ddatblygu rheolwyr canol eu hysgolion;
- Ysgolion llwyddiannus yn rhannu arfer dda a chynnal dyddiadau Datblygu Arweinyddiaeth i reolwyr gweddill yr ysgolion;
- Cynlluniau ysgol i ysgol yn sicrhau bod arweinwyr ysgolion yn cydweithio ac yn datblygu arbenigedd arweinydd;
- Annog darpar arweinwyr i ennill y cymhwyster CPCP;
- Cynllun mentora Penaethiaid newydd.

Ein gobaith yw y bydd penaethiaid yn cael digon o gyfle i ddarparu arweinyddiaeth a rheolaeth broffesiynol ar gyfer eu hysgolion. Hefyd rydym yn disgwyl i gyrff llywodraethol arwain ysgolion yn effeithlon o fewn eu cyllidebau er budd y disgyblion. Byddwn yn disgwyl i ysgolion fod yn meddu ar y staff gorau ar gyfer darparu addysg o'r ansawdd orau.

Mae'r arweinyddiaeth yn Ysgol Sarn Bach wedi ei adnabod gan Estyn (2017) yn "Dda" ac yn nodi fod "yr ysgol yn elwa o arweinyddiaeth glir sy'n seiliedig ar godi safonau a sicrhau lles da'r disgyblion."

Yn ogystal, noder fod y Corff Llywodraethu yn "gefnogol iawn i waith yr ysgol, yn cwrdd yn rheolaidd ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol."

Ar hyd o bryd, mae Ysgol Abersoch yn gweithredu dan arweiniad pennaeth mewn gofal. Mae strwythur staffio presennol Ysgol Abersoch yn cynnwys un pennaeth llawn amser, athrawes rhan amser, athrawes CPA rhan amser, a chymhorthydd rhan amser. Mae gan y pennaeth ymrwymiad dysgu 70% o'i hamser ac yn derbyn 30% o amser digyswllt ar gyfer materion rheolaethol ac arweinyddiaeth.

Yn Ysgol Sarn Bach, mae pennaeth, dwy athrawes rhan amser (cyfwerth ag athrawes llawn amser 1.0), a thri cymhorthydd rhan amser. Mae'r pennaeth yn dysgu 80% o'r amser ac yn derbyn 20% o amser digyswllt ar gyfer materion rheolaethol ac arweinyddiaeth.

### *7.5.1. Effaith ar Reolaeth ac Arweinyddiaeth*

Mae angen sicrhau amodau gwaith sy'n galluogi penaethiaid i sefydlu awyrgylch gynhyrchiol a phositif er mwyn i ddisgyblion gyrraedd eu potensial. Yn ogystal, mae penaethiaid yn gyfrifol am osod diwylliant o welliannau parhaus sy'n cael eu gwerthuso ac sy'n cynnig cymorth i athrawon a rheolwyr canol eraill yn eu hysgolion. Un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r sector cynradd yw'r ffaith nad oes gan benaethiaid amser digonol i arwain mewn ysgolion bach iawn, a bod angen ar adegau addysgu ystod eang o blant o wahanol oedrannau a galluoedd yn yr un dosbarth. Nododd Estyn (2013):

*"Mae arweinyddiaeth a phrosesau i wella ansawdd fel arfer wedi'u datblygu'n well mewn ysgolion cynradd mawr. Mewn ysgolion cynradd bach, mae gan lawer o benaethiaid gyfrifoldeb addysgu sylweddol sy'n cyfyngu ar yr amser y gallent ei neilltuo i arwain a rheoli ac fe gânt lai o gyfleoedd i arfarnu safonau ac ysgogi gwelliant."*

Gall ysgolion gyda niferoedd uwch o blant gynnig strwythur mwy cadarn i gynllunio a darparu'r cwricwlwm trwy sefydlu timau rheoli canol ac arweinwyr pwnc a chwricwlwm. Yn ogystal, gellir canoli nifer o gyfrifoldebau megis rhai yn ymwneud a'r cwricwlwm a materion rheolaethol, sy'n gallu bod yn faich i sefydliadau bach, e.e. trefniadau arfarnu, cynlluniau datblygu, rheoli perfformiad. Mae'n fwy o her i ysgolion llai i fedru creu rhaglenni hyfforddi datblygiad proffesiynol a chynlluniau datblygu penodol ynghyd a chynnig cyfleoedd teg i staff ddatblygu arbenigaeth pwnc a rhannu ymarfer da gyda chyfoedion.

### *7.5.2. Llywodraethu a Materion Staffio*

*Corff Llywodraethu*

Petai'r cynnig i gau Ysgol Abersoch ac addysgu'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach yn cael ei weithredu, byddai'n golygu bod corff llywodraethu Ysgol Abersoch yn cael ei diddymu ar 31 Awst 2021.

Ni ragwelir unrhyw newid i gorff llywodraethu presennol Ysgol Sarn Bach.

*Goblygiadau Staffio*

Petai'r cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 yn cael ei weithredu, rhagwelir y bydd goblygiadau staffio yn arwain at ddiswyddiadau gan y byddai'r swyddi yn dod i ben pan fyddai'r ysgol yn cau. Ymgynghorir yn benodol â staff a chynrychiolwyr yr Undebau fel rhan o'r cyfnod ymgynghori statudol. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau sy'n deillio o'r cynnig gydymffurfio â'r gyfraith cyflogaeth berthnasol a chynllun Diswyddo Gwynedd. Bydd cyfathrebu eglur ac agored gyda staff yn chwarae rhan greiddiol wrth weithredu unrhyw gynnig.

Yn ystod yr ymgynghoriad, cynhelir sesiynau galw heibio rhithwir lle bydd posib trefnu i staff o wasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor fod yn bresennol os yw unrhyw aelod o staff yn dymuno trafod eu sefyllfa. Bydd croeso hefyd i staff gysylltu â'r gwasanaeth Adnoddau Dynol yn uniongyrchol os ydynt yn dymuno cael trafodaethau un i un. Cynigir pecyn cymorth, gan gynnwys hyfforddiant os yw'n briodol, i'r holl staff a effeithir arnynt gan y cynnig.

## 7.6 Adnoddau Ariannol

Y disgwyliad yw y bydd Cyngor Gwynedd yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau ariannol sydd ar gael i ddarparu addysg yn y Sir.

Mae hyn yn fwy pwysig gyda'r hinsawdd heriol iawn sy'n wynebu'r Cyngor ar hyn o bryd. Mae'n bwysig felly bod ymdrechion yn cael eu gwneud i ddefnyddio adnoddau mor effeithiol â phosibl o fewn y system addysg

a hyfforddiant er lles plant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys yr holl adnoddau - dynol, technegol, adeiladu ac ariannol.

Amrywia'r gwariant fesul disgybl yn fawr o ysgol i ysgol. Ar gyfer yr 21[ain] Ganrif, mae angen sicrhau bod gan Wynedd rwydwaith o ysgolion o'r math cywir yn y lleoliadau cywir ar draws y Sir. Byddai lleihau nifer y lleoedd gwag a sicrhau ysgolion cadarn o ran maint yn rhoi cyfleoedd i ddatblygu elfennau cynhwysol. Mae gweithredu yn y modd hwn yn hanfodol os ydym am hyrwyddo cyfle cyfartal ar draws y Sir a lleihau effaith tlodi ym mywydau plant a phobl ifanc.

Dyrannwyd cyfanswm o £915,917 i ysgolion cynradd yr ardal (ysgolion Abersoch, Sarn Bach, Foel Gron a Llanbedrog) yn 2020/21. Mae cost y pen ysgolion cynradd yr ardal yn £7,836 y disgybl ar gyfartaledd, o gymharu gyda chyfartaledd cost y disgybl yng Ngwynedd o £4,198. Amcangyfrifir y byddai gwireddu'r cynnig yn arwain at gost fesul disgybl o £4,434 yn Ysgol Sarn Bach ym mis Medi 2021.

| Ysgol | CYFRAN O'R GYLLIDEB | | Gwarchodaeth Lleiafswm Staffio (Rhwyd diogelu)* |
|---|---|---|---|
| | Cyfanswm y Gyllideb | Cost Fesul Disgybl | |
| **Abersoch** | £137,140 | £17,404 | £52,582 |
| **Sarn Bach** | £228,890 | £4,683 | - |
| **Cyfartaledd Ysgolion Cynradd y Sir** | - | £4,198 | **Cyfanswm 'Rhwyd Diogelu' ysgolion y Sir:** £671,977 |

**Mae'r polisi gwarchodaeth yn sicrhau o leiaf pennaeth ac athro/athrawes ym mhob Ysgol sydd gyda 15 neu fwy o ddisgyblion llawn amser, a phennaeth a chymhorthydd dosbarth mewn ysgolion sydd gyda llai na 15 disgybl llawn amser.*

Mae Ysgol Abersoch yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddisgyblion llawn amser). Cyfanswm y swm hwn eleni (2020-21) oedd £52,582. Mae strwythur staffio presennol yr ysgol, sef pennaeth llawn amser, athrawes rhan amser, athrawes CPA rhan amser, a chymhorthydd rhan amser yn golygu y byddai Ysgol Abersoch heb unrhyw newidiadau yn wynebu diffyg cyllidebol yn seiliedig ar y niferoedd presennol a'r rhagamcanion i'r dyfodol.

Nid yw Ysgol Sarn Bach yn derbyn swm ariannol ychwanegol trwy'r polisi gwarchodaeth. Mae niferoedd disgyblion presennol yr ysgol yn denu cyllideb ddigonol i gynnal lefelau staffio priodol.

Yn y flwyddyn ariannol 2020-21, dyrannwyd cyfanswm o £366,030 i ysgolion Abersoch a Sarn Bach. O ran costau refeniw, rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig arfaethedig yn creu arbediad blynyddol o £110,062, llai anghenion cludiant ychwanegol.

Mae bws ysgol gynradd eisoes yn rhedeg rhwng Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, a rhagwelir y byddai digon o seddi gweigion ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch - felly ni ragwelir costau cludiant ychwanegol yn deillio o weithredu'r cynnig arfaethedig. Pe byddai angen darparu cludiant i holl ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch, yna byddai angen addasu trefniadau cludiant cyfredol Ysgol Sarn Bach. Gallai hyn olygu fod angen bws pwrpasol (bore a phrynhawn) ar gyfer disgyblion Ysgol Sarn Bach, ar gost ychwanegol o oddeutu £14,000 y flwyddyn, ac o ganlyniad, byddai'r arbedion net arfaethedig yn debygol o fod yn £96,062 y flwyddyn.

Bydd unrhyw arbedion mewn costau refeniw yn cael eu cadw ym maes Ysgolion Gwynedd.

## 7.7 Amgylchedd Ddysgu

Nod y Cyngor yw darparu adeiladau addysg gynradd o ansawdd yn y Sir trwy gynllunio strwythuredig, gan ddarparu ystafelloedd priodol i benaethiaid ysgol ac athrawon ynghyd â mynediad i gaeau chwarae a neuadd briodol i blant. Bydd angen i adeiladau gydymffurfio â gofynion Cyfnod Sylfaen a'r cwricwlwm yn ogystal.

Mae'r Cyngor yn cynnal arolygon cyflwr blynyddol ar ei holl eiddo. Mae'r arolygon blynyddol yn cyfrannu at Gynllun Rheoli Asedau'r Awdurdod ac yn galluogi blaenoriaethu'r rhaglen waith cynnal a chadw ysgolion.

Mae'r tabl isod yn cynnwys cyflwr adeiladau Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, yn ogystal â chostau'r gwaith cynnal a chadw sydd ei angen.

| Ysgol | Categori Cyflwr | Diffygion Cyflwr | Cost y Cynnal a Chadw sydd ei Angen |
|---|---|---|---|
| **Ysgol Abersoch** | B | • Angen newid y ffenestri pren sy'n weddill yn yr ysgol i ffenestri uPVC | £7,500 |
| **Ysgol Sarn Bach** | B | • Angen diweddaru system awyru i'r gegin gan gynnwys gas cyd-gloi (*interlock*) | £25,000 |

| Allwedd i'r Categorïau: | | | |
|---|---|---|---|
| **A** | DA (Dim Dirywiad) | **C** | GWAEL (Dirywiad Mawr) |
| **B** | BODDHAOL (Mân Ddirywiad) | **D** | DRWG (Wedi cyrraedd diwedd ei hoes) |

*Ffynhonnell: Adran Eiddo Gwynedd*

### Ysgol Abersoch:

Mae adeilad Ysgol Abersoch wedi ei adnabod yng nghategori cyflwr B (Boddhaol). Mae angen gwaith pellach er mwyn newid y ffenestri pren sy'n weddill yn yr ysgol i ffenestri uPVC, fel arall mae'r adeilad mewn cyflwr derbyniol.

Gan nad oes neuadd bwrpasol yn adeilad yr ysgol, mae'r ysgol yn gwneud defnydd o'r neuadd bentref ar gyfer cynnal cyngherddau a gweithgareddau. Yn ogystal, gan nad oes cegin addas yn yr ysgol, mae bwyd yn cael ei gludo yno o ysgol gyfagos.

### Ysgol Sarn Bach:

Fel adeilad Ysgol Abersoch, mae adeilad Ysgol Sarn Bach wedi ei adnabod yng nghategori cyflwr B (Boddhaol). Mae angen gwaith i ddiweddaru system awyru'r gegin gan gynnwys gas 'interlock', fel arall mae'r adeilad mewn cyflwr derbyniol. Nid yw'r gwaith yma'n amharu ar y gofod addysgu mewnol.

## 7.8 Y Gymuned

Cwblhaodd y Cyngor asesiad o effaith cymunedol ar yr opsiynau er mwyn gallu cymharu'r effaith tebygol y byddent yn ei gael ar y cymunedau dan sylw. Mae copi o'r adroddiad llawn wedi ei gynnwys yn y pecyn cefndirol ar wefan y Cyngor [www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg](http://www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg)

Wrth ddatblygu unrhyw gynigion yn ymwneud â moderneiddio addysg, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith bosibl ar y gymuned. Nododd yr asesiad, drwy gau Ysgol Abersoch y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau

cymunedol yn cael eu heffeithio. Mae casgliad yr asesiad yn nodi na ragwelir y byddai unrhyw un o'r opsiynau yn cael effaith negyddol sylweddol ar y gymuned.

Mae'r tabl isod yn nodi'r defnydd cymunedol o adeilad y ddwy ysgol ar hyn o bryd:

| | Abersoch | Sarn Bach |
|---|---|---|
| Grwpiau Chwarae (Gwyliau'r ysgol) | | |
| Aelwyd yr Urdd | ✓ | ✓ |
| Dramâu | | |
| Grwpiau Gwirfoddol | | |
| Bore/Noson Goffi | | |
| Arwerthiant Cymunedol | | |
| Llyfrgell Gymunedol | | |
| Ymarfer Côr | | |
| Cymraeg i Oedolion | | |
| Cyfarfod Cyngor Tref/Gymuned | | |
| Cylch/Ysgol Feithrin | ✓ | |
| Clwb/Gweithgaredd Chwaraeon | ✓ | ✓ |
| Clwb ar ôl Ysgol | | |
| Clwb Diddordeb Lleol | | |

*Ffynhonnell: Holiaduron Penaethiaid Tachwedd 2020*

Nodir yn y tabl isod weithgareddau neu grwpiau y mae'r ysgol yn ymwneud yn rheolaidd a nhw.

| | Abersoch | Sarn Bach |
|---|---|---|
| Cylchoedd Meithrin/Ti a Fi | ✓ | ✓ |
| Eisteddfodau (Lleol/Sirol/Cenedlaethol) | ✓ | ✓ |
| Adrannau'r Urdd | ✓ | ✓ |
| Gweithgareddau eraill (chwaraeon, clybiau) | ✓ | ✓ |

*Ffynhonnell: Holiaduron Penaethiaid Tachwedd 2020*

Noda'r asesiad effaith y byddai peth effaith negyddol yn deillio o gau'r ysgol. Fodd bynnag, nodir fod 9 (35%) o ddisgyblion Meithrin – Bl. 3 sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. O ganlyniad, deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgol a'r ardal ehangach eisoes.

I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol.

## 7.9 Yr Iaith Gymraeg

Ein disgwyliad yw bod ysgolion cynradd y sir yn cefnogi ac yn gwella'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel iaith gymdeithasol ac iaith addysg eu disgyblion.

Wrth ddatblygu unrhyw gynigion ynghylch ad-drefnu ysgolion, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith ar yr iaith Gymraeg. Mae cynnal a gwella'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel iaith gymdeithasol ac iaith addysg bob amser yn ystyriaeth allweddol wrth lunio cynigion ac wrth asesu dewisiadau.

Mae unrhyw drafodaethau yn ymwneud ag ad-drefnu angen nodi ymdrech Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Yn unol â'r Polisi Iaith, disgwylir i gyfrwng y ddarpariaeth gwricwlaidd fod yr un fath ar draws ein hysgolion cynradd. Datblygwyd y Siarter Iaith gan y Cyngor - sy'n weithredol ymhob ysgol gynradd yng Ngwynedd- er mwyn annog defnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg, hyrwyddo naws Gymreig ein hysgolion ac ymwybyddiaeth y plant o Gymreictod.

Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cwblhawyd asesiad o ardrawiad ieithyddol y cynnig i gau Ysgol Abersoch ac addysgu'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach. Mae'r asesiad ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg

Deuir i gasgliad yn yr asesiad hwn, na ragwelir effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Mae hyn yn bennaf gan fod yr ysgol amgen yn cynnig addysg trwy gyfrwng Cymraeg, fel sydd yn cael ei gynnig yn Ysgol Abersoch ar hyn o bryd. Yr un yw'r Polisi Iaith ar gyfer holl ysgolion cynradd Gwynedd, felly'r un fyddai'r ddarpariaeth i'r disgyblion waeth pa ysgol y byddent yn dewis mynychu.

Yn ogystal, fe ymddengys fod sefyllfa ieithyddol Ysgol Sarn Bach yn gryf. Gyda 57% o ddisgyblion Ysgol Sarn Bach yn dod o gartrefi Cymraeg. O gymharu â 33% o ddisgyblion Ysgol Abersoch sy'n dod o gartrefi Cymraeg.

Mae Ysgol Abersoch wedi gweithio'n galed i ddatblygu sgiliau dwyieithog y dysgwyr yn ogystal â hyrwyddo pwysigrwydd y diwylliant Cymraeg. Llwyddodd yr ysgol i ennill gwobr aur y Siarter Iaith Gymraeg yn 2019. Mae'n hollbwysig felly bod y cynnig arfaethedig yn cydnabod yr angen i gefnogi a pharhau â'r gwaith hwn.

*Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-20*

Mae'r ddwy ysgol, Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, yn gweithredu amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020 Cyngor Gwynedd. Mae hyn yn cynnwys:

- Gosod sylfaen gadarn yn y Gymraeg yn y Blynyddoedd Cynnar, gan sicrhau bod disgyblion o gefndir Saesneg yn cael y cyfle i ddysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosib.
- Yn y cyfnod sylfaen, adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cyfnod meithrin a derbyn drwy barhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, a chychwyn ar y broses o ddatblygu eu sgiliau yn y Saesneg. Yn ymarferol, golyga hyn y bydd y mwyafrif o'r ysgolion yn cychwyn cyflwyno'r Saesneg fel pwnc yn y tymor olaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen gan roi sylw i ddatblygu sgiliau darllen, siarad ac ysgrifennu yn yr iaith honno. Y Gymraeg fydd iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.
- Yn CA2, parhau i ddatblygu meistrolaeth disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. Asesir cynnydd disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

Byddai gweithredu'r cynnig arfaethedig yn cyd-fynd gydag amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-20, a thargedau a gymeradwywyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg.

## 7.10 Ffactorau Daearyddol

### *7.10.1.* Trefniadau Teithio a chludiant arfaethedig

Strategaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer addysg gynradd yw anelu at gyfyngu teithio o'r cartref i'r ysgol i daith un ffordd sydd heb fod yn fwy na 30 munud. Mae cludiant ar gael am ddim ar gyfer disgyblion ysgol gynradd sydd yn byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol yn eu dalgylch.

Wrth symud i'r ysgol amgen, ni ragwelir y bydd angen i unrhyw ddisgybl deithio pellter afresymol i gyrraedd safle addysgol, yn unol â'r strategaeth. Mae Ysgol Abersoch wedi ei lleoli 1.4 milltir o safle presennol Ysgol Sarn Bach a rhagwelir y byddai'r daith oddeutu 5 munud bob ffordd mewn car neu fws.

Byddai cludiant yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant ysgolion y Sir, ac ni ragwelir y byddai costau ychwanegol o ddarparu cludiant i blant presennol Ysgol Abersoch gan fod bws eisoes yn cludo disgyblion o Abersoch i Ysgol Sarn Bach, a deallwn fod seddi gweigion digonol ar gael ar y bws hwnnw. Pe byddai angen darparu cludiant i holl ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch, yna byddai angen addasu trefniadau cludiant cyfredol yn Ysgol Sarn Bach. Gallai hyn olygu fod angen bws pwrpasol (bore a phrynhawn) ar gyfer disgyblion Ysgol Sarn Bach, ar gost ychwanegol o oddeutu £14,000 y flwyddyn.

### *7.10.2. Dalgylchoedd Mynediad i Ysgolion*


Dylid nodi fod Ysgol Sarn Bach eisoes yn derbyn disgyblion ardal Abersoch yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 8 oed.

Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu byddai dalgylch Ysgol Sarn Bach yn cael ei addasu i gynnwys ardal yr ysgol bresennol, yn ogystal ag ardal dalgylch presennol Ysgol Abersoch.

**Map 1: Sefyllfa bresennol dalgylchoedd yr ardal**



**Map 2: Dalgylch Ysgol Sarn Bach os gweithredir y cynnig arfaethedig**





### *7.10.3. Trefniadau Mynediad Arfaethedig*

Awdurdod Addysg Cyngor Gwynedd fyddai'r Awdurdod Mynediad, a byddai mynediad i'r ysgol yn unol â Pholisi Mynediad Ysgolion y Sir. Byddai'r Awdurdod yn rheoli derbyniadau i'r ysgol.

### *7.10.4. Llwybrau cerdded*

Mae llwybrau cerdded yn ardal Ysgol Sarn Bach wedi eu hamlygu ar y map isod:



## 7.11 Effaith ar gydraddoldeb

Cynhaliwyd asesiad cydraddoldeb ar yr opsiynau. Mae'r asesiad yn rhoi sylw penodol i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Mae'r asesiad yn nodi'r sefyllfa bresennol a'r polisïau a threfniadau sydd mewn lle a fyddai'n sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal.

Mae'r asesiad yn nodi nad yw'r opsiynau arfaethedig yn debygol o gael effaith negyddol ar nodweddion cydraddoldeb. Nodir fod mesurau eisoes mewn lle yn yr ysgolion i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithlon nac aflonyddu. Ni fydd unrhyw newid i bolisïau'r ysgolion perthnasol ar faterion cydraddoldeb o ganlyniad i'r cynnig arfaethedig.

Bydd y Cyngor yn dilyn prosesau arferol trwy gefnogi a monitro, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth pob ysgol â'r nodweddion cydraddoldeb. Mae Estyn hefyd yn arolygu ysgolion ac yn asesu agweddau cydraddoldeb yn rhan o'i ganllawiau arferol.

Gweler yr asesiad llawn ar wefan y Cyngor [www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg](www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg).

## 7.12 Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg disgyblion y sir drwy ei weithgareddau a'i brosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella llesiant yn "Cynllun Gwynedd 2018-2023".

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, deuir i'r casgliad fod y cynnig yn bodloni 7 nod llesiant y Ddeddf, ynghyd ag amcanion llesiant y Cyngor. Bydd y cynnig hwn yn caniatáu i ni ymateb i a diwallu anghenion y plant heddiw, a hefyd cryfhau eu llesiant i'r dyfodol. Bydd y cynnig arfaethedig yn sicrhau bod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd i gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.

Gweler yr asesiad llawn ar y wefan [www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg](www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg).

## 7.13 Gwybodaeth am Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae gan adeilad Ysgol Sarn Bach gyfleusterau sy'n cyfateb i Ysgol Abersoch i gynnig darpariaeth arbenigol sy'n addas ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholisi'r Awdurdod.

## 7.14 Ôl ddefnydd y safle

Pe gweithredir y cynnig byddai Ysgol Abersoch yn peidio â pharhau i gynnig addysg. Mae gan y Cyngor bolisi ôl-ddefnydd adeiladau ysgolion a byddai'r polisi yn cael ei ddilyn. Byddai angen i'r Cyngor drafod ac ystyried unrhyw dermau neu gyfyngiadau cyfreithiol rhwymol y gellid dod i rym pe bai unrhyw un o'r safleoedd yn peidio â bod yn safle ar gyfer darpariaeth addysg.

## 7.15 Risgiau Posibl

| Risg | Effaith bosibl | Camau i Liniaru'r Risg |
|---|---|---|
| **Diffyg gwneud penderfyniadau** | Anallu i roi newid ar waith oherwydd diffyg penderfyniadau sy'n cynyddu'r tebygolrwydd o aflonyddu addysg disgyblion. Gallai achosi niwed i enw da'r Cyngor | Amserlen gyda cherrig milltir clir sy'n nodi pan fo angen penderfyniadau allweddol gan Gabinet Cyngor Gwynedd. |
| **Cludiant annigonol ar gyfer y trefniadau newydd** | Plant yn methu cael mynediad i'r ysgol amgen | Paratoi a chynllunio amserlen gyda cherrig milltir clir ar gyfer cynllunio a thendro cludiant ym mhell o flaen y diwrnod trosglwyddo disgyblion |
| **Ansawdd yr addysg yn y tymor byr tra bod sefyllfa'r ysgol yn cael eu hadolygu** | Gostwng ansawdd darpariaeth addysg ar gyfer y disgyblion. | Monitro'r ysgol yn unol â pholisi'r adran Addysg. |

## 7.16 Manteision ac anfanteision disgwyliedig y cynnig

Amlinellir y manteision ac anfanteision a adnabuwyd ar gyfer y cynnig yn y tabl isod:

| Ystyriaethau | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|
| **Maint Dosbarthiadau** | Disgyblion i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy addas.<br>Disgyblion yn cael eu haddysgu gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran. | - |
| **Niferoedd Disgyblion** | Niferoedd yr ysgol a fydd yn darparu addysg ar gyfer yr ardal yn fwy cadarn a chynaliadwy i'r dyfodol.<br>Lleihad yng nghanran y llefydd gweigion yn yr ardal. | - |
| **Arweinyddiaeth a Staffio** | - | Effaith ar gyflogaeth staff |
| **Y Gymuned** | - | Colli presenoldeb ysgol ym mhentref Abersoch |
| **Adnoddau Ariannol** | Ni fydd yr ysgol yn parhau i dderbyn cyfraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio.<br>Cost y disgybl o addysgu yn agosach at y cyfartaledd sirol. | Costau cludiant i'r Awdurdod os yw'r ysgol amgen yn fwy na 2 filltir o gartrefi disgyblion. |

| Ystyriaethau | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|
| **Yr Iaith Gymraeg** | Addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei gynnig fel y sefyllfa bresennol. | |
| **Ffactorau Daearyddol** | Ni fydd unrhyw ddisgybl yr ardal angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. | Byddai'n rhaid i rai disgyblion deithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnânt ar hyn o bryd. |
| **Ystyriaethau eraill** | Buddiannau ac adnoddau'r ysgol. Cynnig profiadau i ddisgyblion gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion. | - |

## 8. Crynodeb o'r Cynnig

Mae'r cynnig hwn yn golygu y byddai Ysgol Abersoch yn cau ac y byddai disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Sarn Bach.

Cau Ysgol Abersoch ar y 31 Awst 2021, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Medi 2021 ymlaen.

## 9. Egluro'r Broses Statudol a Manylion Ymgynghori

Yn ei gyfarfod ar 3 Tachwedd 2020, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd gadarnhau ei benderfyniad i "gynnal ymgynghoriad statudol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Medi 2021 ymlaen."

Cymeradwyodd y Cabinet yr argymhelliad i symud ymlaen i gyfnod o ymgynghori'n statudol ar yr opsiwn a ffafrir. Hon yw'r ddogfen ymgynghori sy'n cynnwys manylion y cynnig. Cyhoeddwyd y ddogfen hon ar y **12 Ionawr 2021** a gellir derbyn ymatebion tan **13:00 ar ddydd Mawrth 23 Chwefror, 2021. Ni fydd yr ymatebion hyn yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau, ond sylwadau.** Os oes unrhyw un yn dymuno gwrthwynebu, rhaid iddynt wneud hynny yn dilyn cyhoeddi'r hysbysiad statudol (pe bai un yn cael ei gyhoeddi). Yn ystod yr ymgynghoriad hwn, gall yr ymatebion gynnwys sylwadau neu gwestiynau ar unrhyw agwedd o'r cynnig neu awgrymu opsiynau eraill.

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol hwn, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 bydd rhaid cyflwyno adroddiad ar yr ymgynghoriad i'r Cabinet er mwyn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghorai a nodi ymateb y Cyngor i'r materion hynny. Yn dilyn ystyried yr adroddiad, bydd y Cabinet yn penderfynu pr'un ai a ddylid bwrw ymlaen a'r cynnig hwn ai peidio. Cyhoeddir yr adroddiad ar wefan y Cyngor a bydd copïau caled ar gael ar gais. Rhoddir gwybod i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, staff a

llywodraethwyr yr ysgol fod yr adroddiad ar gael. Bydd nifer o gynrychiolwyr o asiantaethau eraill yn cael gwybod bod yr adroddiad ymgynghori ar gael, e.e. Estyn, Gweinidogion Cymru, Aelodau Cynulliad perthnasol ac Aelodau Seneddol ayyb.

Os yw'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori, bydd yn rhaid i'r cynnig gael ei **gyhoeddi ar ffurf hysbysiad statudol**. Bydd yr hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a bydd "**cyfnod gwrthwynebu**" o 28 diwrnod o'r dyddiad pan gyhoeddir y cynnig. Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig. Caiff yr hysbysiad ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Gwynedd a hefyd yn agos at brif dderbynfa'r ddwy ysgol sy'n ymwneud â'r cynnig; bydd copïau electroneg yn cael eu hanfon at yr ysgolion i'w dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, staff a llywodraethwyr. Bydd copïau caled ar gael ar gais gan y swyddfa moderneiddio addysg.

Ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben, bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau mewn "Adroddiad Gwrthwynebu". Bydd yr adroddiad gwrthwynebu yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a bydd copïau caled ar gael ar gais. Rhoddir gwybod hefyd i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, staff a llywodraethwyr y ddwy ysgol fod yr adroddiad gwrthwynebiadau ar gael. Bydd nifer o gynrychiolwyr o asiantaethau eraill yn cael gwybod bod yr adroddiad gwrthwynebiadau ar gael.

Yn dilyn hynny, bydd Cabinet y Cyngor yn gwneud y penderfyniad terfynol ar yr adroddiad gwrthwynebu. Pan fydd y Cabinet wedi cyrraedd ei benderfyniad terfynol, bydd y penderfyniad yn cael ei roi'n ysgrifenedig, ynghyd â rhesymau penodol dros y penderfyniad. Bydd y penderfyniad yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor, a bydd rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, staff a llywodraethwyr y ddwy ysgol yn cael gwybod am y penderfyniad. Bydd nifer o gynrychiolwyr o asiantaethau eraill hefyd yn cael eu hysbysu am y penderfyniad.

Mewn rhai achosion - yn dilyn penderfyniad terfynol y Cabinet - mae'n bosibl i'r cyrff canlynol gyfeirio'r cynnig i Weinidogion Cymru i'w hystyried:

- Awdurdod Lleol arall a effeithir gan y cynnig
- Corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol a effeithir arni
- Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig sy'n destun i'r cynigion
- Unrhyw Ymddiriedolaeth sy'n dal tir ar ran ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig sy'n destun cynnig
- Sefydliad addysg bellach yr effeithir arno gan y cynnig

Mae angen i'r cyrff sy'n cyfeirio'r cynnig nodi'r rheswm pam mae'n nhw o'r farn bod y penderfyniad a wnaed gan yr Awdurdod Lleol yn anghywir. Bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu a yw'r cynigion yn effeithio ar y cyrff ac a oes angen iddynt ystyried y cynigion.

## 10. Amserlen Arfaethedig

| Dyddiad | Cam |
|---|---|
| **15 Medi 2020** | **Adrodd i'r Cabinet:** Ceisio caniatâd i gynnal ymgynghoriad statudol |
| **3 Tachwedd 2020** | **Cabinet:** Cadarnhau penderfyniad 15 Medi 2020. |
| **12 Ionawr 2021** | **Cychwyn cyfnod ymgynghori statudol:** O leiaf 42 diwrnod i'r ymgynghorai ymateb, o leiaf 20 diwrnod o'r dyddiau hynny yn ddyddiau ysgol. |
| **23 Chwefror 2021** | **Dyddiad cau'r ymgynghoriad statudol:** Dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau ar y cynnig |
| **Mawrth 2021** | **Cabinet:** Yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, bydd adroddiad ar yr ymatebion yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet. Bydd y Cabinet yn trafod yr adroddiad a phenderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio. Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar wefan y Cyngor. |
| **Mai 2021** | **Cyhoeddi rhybudd statudol:** Os bydd y Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, cyhoeddir hysbysiad statudol ac fe gynhelir cyfnod gwrthwynebu. Rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiad o fewn y cyfnod gwrthwynebu 28 diwrnod. |
| **Mehefin 2021** | **Y Cabinet:** Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, bydd y Cabinet yn trafod yr adroddiad gwrthwynebiadau a phenderfynu a ddylid cadarnhau'r cynnig ai peidio. |
| **Gorffennaf 2021** | **Cyfeirio'r penderfyniad i Weinidogion Cymru:** Yn unol ag adran 54 o Ddeddf 2013, o fewn 28 diwrnod i benderfyniad y Cabinet, gall y cyrff canlynol gyfeirio'r cynnig i Weinidogion Cymru i'w benderfynu:<br>i. Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;<br>ii. Y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni;<br>iii. Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion;<br>iv. Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion;<br>v. Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arni. |
| **31 Awst 2021** | **Gweithredu'r cynnig:** Ysgol Abersoch yn cau yn swyddogol, yn ddarostyngedig ar benderfyniadau'r Cabinet. |

# ATODIAD 1 – Cymharu'r Opsiynau

**Allwedd:** Glas = Manteision Coch = Anfanteision Du = Sylwadau a Ffeithiau

| | 1<br>Status Quo | 2 (a)<br>Newid ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed | 2 (b)<br>Newid ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-9 oed | 3<br>Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos | 4<br>Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan leoli'r Cyfnod Sylfaen ar safle Ysgol Abersoch, a CA2 ar safle'r ysgol gyfagos |
|---|---|---|---|---|---|
| **Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran** | Maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch yn parhau yn fach – 1 dosbarth o 10 (Medi 2020).<br><br>Amrediad oedran hyd at 5 mlynedd yn parhau yn y dosbarth. | Maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch yn parhau yn fach – 1 dosbarth o 10 (Medi 2020).<br><br>Amrediad oedran hyd at 5 mlynedd yn parhau yn y dosbarth. | Maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch yn parhau yn fach – 1 dosbarth o 10 (Medi 2020).<br><br>Amrediad oedran hyd at 5 mlynedd yn parhau yn y dosbarth. | Maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch yn parhau yn fach – 1 dosbarth o 10 (Medi 2020).<br><br>Amrediad oedran hyd at 5 mlynedd yn parhau yn y dosbarth. | Disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy hyfyw.<br><br>Disgyblion yn cael eu haddysgu gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran.<br><br>Amrediad oedran hyd at 4 mlynedd yn y dosbarth CS a'r dosbarth CA2. |
| **Niferoedd Disgyblion** | Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Abersoch.<br><br>26 o lefydd gweigion (76%)<br><br>Rhagamcanion yr ysgol yn parhau i ymddangos yn fregus o ran niferoedd.<br><br>Agorwyd Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle'r ysgol yn mis Chwefror 2020, gallai hyn arwain at gynnydd bychan yn niferoedd y disgyblion. | Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Abersoch.<br><br>26 o lefydd gweigion (76%)<br><br>Rhagamcanion yr ysgol yn parhau i ymddangos yn fregus o ran niferoedd.<br><br>Mae'n debygol y byddai ymestyn y ddarpariaeth hyd flwyddyn 6 yn arwain at gynnydd bychan yn niferoedd disgyblion, ac o ganlyniad yn lleihau ychydig ar y llefydd gweigion.<br><br>Agorwyd Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle'r ysgol yn mis Chwefror 2020, gallai hyn arwain at gynnydd yn niferoedd y disgyblion. | Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Abersoch.<br><br>26 o lefydd gweigion (76%)<br><br>Rhagamcanion yr ysgol yn parhau i ymddangos yn fregus o ran niferoedd.<br>Mae'n debygol y byddai ymestyn y ddarpariaeth hyd flwyddyn 4 yn arwain at gynnydd bychan yn niferoedd disgyblion, ac o ganlyniad yn lleihau ychydig ar y llefydd gwegion, ond nid cymaint ag opsiwn 2 (a).<br>Agorwyd Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle'r ysgol yn mis Chwefror 2020, gallai hyn arwain at gynnydd bychan yn niferoedd y disgyblion. | Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Abersoch.<br><br>26 o lefydd gweigion (76%)<br><br>Rhagamcanion yr ysgol yn parhau i ymddangos yn fregus o ran niferoedd.<br><br>Agorwyd Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle'r ysgol yn mis Chwefror 2020, gallai hyn arwain at gynnydd bychan yn niferoedd y disgyblion. | Niferoedd disgyblion yr ysgol yn debygol o gynyddu gan mai Ysgol Abersoch fyddai'r darparwr addysg CS ar gyfer disgyblion dalgylch y 2 ysgol.<br><br>Byddai cyfyngu'r ysgol gyfagos i ddarparu addysg ar gyfer disgyblion CA2 yn unig yn arwain at leihad yn niferoedd disgyblion CS yr ysgol honno i 0.<br><br>Agorwyd Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle'r ysgol yn mis Chwefror 2020, gallai hyn arwain at gynnydd bychan yn niferoedd y disgyblion. |
| **Arweinyddiaeth a Staffio** | Dim newid yn amser digyswllt y pennaeth. | Dim newid yn amser di-gyswllt y pennaeth. | Dim newid yn amser digyswllt y pennaeth. | Cyfleodd i rannu staff a rhannu arbenigeddau ar draws yr ysgolion. Cyfleoedd i gydweithio ar faterion cwricwlaidd a datblygu cynlluniau ar y cyd. | Cyfleodd i rannu staff a rhannu arbenigeddau ar draws yr ysgolion. Cyfleoedd i gydweithio ar faterion cwricwlaidd a datblygu cynlluniau ar y cyd. |
| **Y Gymuned** | Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol – golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. | Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol – golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. | Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol – golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. | Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol – golygu na fyddai'n effeithio ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. | Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol – golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynaladwyedd hir dymor yr ysgol.<br><br>Canran uchel o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch, o ganlyniad cyswllt eisoes yn bodoli rhwng y gymuned ac ysgolion eraill. | Os na fyddai'r niferoedd yn cynyddu, byddai'r ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynaladwyedd hir dymor yr ysgol.<br><br>Canran uchel o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch, o ganlyniad cyswllt eisoes yn bodoli rhwng y gymuned ac ysgolion eraill. | Os na fyddai'r niferoedd yn cynyddu, byddai'r ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynaladwyedd hir dymor yr ysgol.<br><br>Canran uchel o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch, o ganlyniad cyswllt eisoes yn bodoli rhwng y gymuned ac ysgolion eraill. | Ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynaladwyedd hir dymor yr ysgol.<br><br>Canran uchel o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch, o ganlyniad cyswllt eisoes yn bodoli rhwng y gymuned ac ysgolion eraill. | |
| **Adnoddau Ariannol** | Ysgol Abersoch yn parhau'n anghynaladwy yn ariannol ac yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol (£52,582 yn 2020-21) gan yr awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol.<br>Cyfartaledd cost y disgybl yn parhau'n uchel, £17,404, dros bedair gwaith yn uwch na'r cyfartaledd sirol, a'r uchaf yn y sir.<br><br>Yn sgil agor Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle Ysgol Abersoch, mae potensial i gynhyrchu incwm i'r ysgol drwy godi ffi ar y darparwyr gofal plant am y defnydd o'r adeilad. | Ysgol Abersoch yn parhau'n anghynaladwy yn ariannol ac yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol (£52,582 yn 2020-21) gan yr awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol.<br>Cyfartaledd cost y disgybl yn parhau'n uchel, £17,404, dros bedair gwaith yn uwch na'r cyfartaledd sirol, a'r uchaf yn y sir.<br><br>Pe byddai'r niferoedd yn cynyddu, byddai'n arwain at leihad bychan yng nghost y disgybl, ond byddai'r ysgol yn debygol o barhau mewn gwarchodaeth.<br><br>Yn sgil agor Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle Ysgol Abersoch, mae potensial i gynhyrchu incwm i'r ysgol drwy godi ffi ar y darparwyr gofal plant am y defnydd o'r adeilad. | Ysgol Abersoch yn parhau'n anghynaladwy yn ariannol ac yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol (£52,582 yn 2020-21) gan yr awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol.<br>Cyfartaledd cost y disgybl yn parhau'n uchel, £17,404, dros bedair gwaith yn uwch na'r cyfartaledd sirol, a'r uchaf yn y sir.<br><br>Pe byddai'r niferoedd yn cynyddu, byddai'n arwain at leihad yng nghost y disgybl, ond byddai'r ysgol yn debygol o barhau mewn gwarchodaeth.<br><br>Yn sgil agor Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle Ysgol Abersoch, mae potensial i gynhyrchu incwm i'r ysgol drwy godi ffi ar y darparwyr gofal plant am y defnydd o'r adeilad. | Ysgol Abersoch yn parhau'n anghynaladwy yn ariannol ac yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol (£52,582 yn 2020-21) gan yr awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol.<br>Cyfartaledd cost y disgybl yn parhau'n uchel, £17,404, dros bedair gwaith yn uwch na'r cyfartaledd sirol, a'r uchaf yn y sir.<br>Cyfle i rannu adnoddau a chyfle i ddefnyddio cyllidebau ar draws ysgolion y ffederasiwn.<br>Byddai unrhyw arbediad rheolaethol fyddai'n deillio o'r trefniant yn cael ei gadw gan yr ysgolion i redeg y ffederasiwn.<br>Yn sgil agor Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle Ysgol Abersoch, mae potensial i gynhyrchu incwm i'r ysgol drwy godi ffi ar y darparwyr gofal plant am y defnydd o'r adeilad. | Ysgol Abersoch yn parhau'n anghynaladwy yn ariannol ac yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol (£52,582 yn 2020-21) gan yr awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol.<br><br>Cost cyfartaledd y disgybl yn debygol o barhau i fod yn uchel, ac yn uwch na'r cyfartaledd sirol.<br><br>Cyfle i rannu adnoddau a chyfle i ddefnyddio cyllidebau ar draws ysgolion y ffederasiwn.<br><br>Pe byddai'r niferoedd yn cynyddu, byddai'n arwain at leihad yng nghost y disgybl.<br><br>Byddai unrhyw arbediad rheolaethol fyddai'n deillio o'r trefniant yn cael ei gadw gan yr ysgolion i redeg y ffederasiwn.<br><br>Yn sgil agor Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle Ysgol Abersoch, mae potensial i gynhyrchu incwm i'r ysgol drwy godi ffi ar y darparwyr gofal plant am y defnydd o'r adeilad. |
| **Yr Iaith Gymraeg** | Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol.<br><br>Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/ o fewn y gymuned. | Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol.<br><br>Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/ o fewn y gymuned. | Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol.<br><br>Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/ o fewn y gymuned. | Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol.<br>Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/ o fewn y gymuned. | Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol.<br>Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/ o fewn y gymuned. |
| **Ffactorau Daearyddol** | Dim newid.<br><br>Ysgol o fewn pellter cerdded o gartref mwyafrif o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch. | Dim newid.<br><br>Ysgol o fewn pellter cerdded o gartref mwyafrif o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch. | Dim newid.<br><br>Ysgol o fewn pellter cerdded o gartref mwyafrif o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch. | Dim newid.<br><br>Ysgol o fewn pellter cerdded o gartref mwyafrif o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch. | Dim newid i ddisgyblion y CS.<br>Ysgol yn parhau i fod o fewn pellter cerdded o'r cartref i mwyafrif o ddisgyblion CS dalgylch Ysgol Abersoch.<br>Byddai'n rhaid i rai disgyblion deithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnânt ar hyn o bryd – angen ystyried yr effaith amgylcheddol fyddai'n deillio o hynny. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ystyriaethau pellach** | | Dim torri ar draws darpariaeth CA2 yr ysgol – gall arwain at well parhad o'r cwricwlwm gan fod yr ysgol yn cynnig addysgu 2 gyfnod cyflawn (CS + CA2).<br><br>Ystod oed yr ysgol yn gyson gyda'r mwyafrif o ysgolion cynradd y sir.<br><br>Ni fyddai'r adeilad/safle presennol, heb addasiadau yn addas ar gyfer cynnydd mawr yn niferoedd y disgyblion. | Ni fyddai ystod oed yr ysgol yn gyson gyda'r mwyafrif o ysgolion cynradd y sir.<br><br>Ni fyddai'r adeilad/safle presennol, heb addasiadau yn addas ar gyfer cynnydd mawr yn niferoedd y disgyblion. | Ffederasiwn yn fodel sy'n ddibynnol ar barodrwydd ysgolion eraill i ymuno â'r trefniant i gyd-weithio.<br><br>Byddai Ysgol Abersoch yn parhau'n anghynaladwy gyda niferoedd bychan ac yn parhau i dderbyn gwarchodaeth ariannol. | Ffederasiwn yn fodel sy'n ddibynnol ar barodrwydd ysgolion eraill i ymuno â'r trefniant i gyd-weithio.<br><br>Posibilrwydd y byddai angen cynnal proses statudol i newid ystod oed yr ysgolion fyddai'n rhan o'r ffederasiwn.<br><br>Posib y byddai'n arwain at ostyngiad yn niferoedd yr ysgol gyfagos, gan y byddai'n ei chyfyngu i ddarparu addysg CA2 yn unig. |
| **Rhai sylwadau gan aelodau'r PAY** | Gall dosbarthiadau bychain fod yn fantais.<br><br>Potensial i'r niferoedd gynyddu trwy fenter tai lleol.<br><br>Cyfleoedd parhaus i gryfhau'r Gymraeg yn yr ysgol a'r gymuned.<br><br>Dyfarnwyd Gwobr Aur Siarter Iaith Gwynedd i Ysgol Abersoch | Gall dosbarthiadau bychain fod yn fantais.<br><br>Dyfarnwyd Gwobr Aur Siarter Iaith Gwynedd i Ysgol Abersoch | Gall dosbarthiadau bychain fod yn fantais.<br><br>Disgyblion yn cael yr opsiwn i barhau i gael eu haddysgu am flwyddyn ychwanegol yn Ysgol Abersoch.<br><br>Dyfarnwyd Gwobr Aur Siarter Iaith Gwynedd i Ysgol Abersoch | Gall dosbarthiadau bychain fod yn fantais.<br><br>Pryder am ddiffyg cynrychiolaeth lawn o'r cymunedau ar y corff llywodraethu ffederal.<br><br>Dyfarnwyd Gwobr Aur Siarter Iaith Gwynedd i Ysgol Abersoch | Pryder am ddiffyg cynrychiolaeth lawn o'r cymunedau ar y corff llywodraethu ffederal.<br><br>Gall dosbarthiadau rhy fawr o ran niferoedd disgyblion fod yn anfanteisiol - ond, onid yw'n wir y byddai lle i ddau ddosbarth CS yn Ysgol Abersoch a thri dosbarth CA2 yn Ysgol Sarn Bach?<br><br>Gallasai'r newid arwain at rieni'n dewis peidio ag anfon eu plant i'r ysgol.<br><br>Dyfarnwyd Gwobr Aur Siarter Iaith Gwynedd i Ysgol Abersoch |

| | 5 | 6 | 7 | 8 (a) | 8 (b) |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos gan leoli'r Cyfnod Sylfaen + Blwyddyn 3 a 4 + Blwyddyn 5 a 6 ar safle 3 ysgol wahanol** | **Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion mewn ysgol amgen** | **Lleoli canolfan iaith ar safle Ysgol Abersoch** | **Sefydlu Cylch Meithrin yn Ysgol Abersoch** | **Newid ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-9 oed + sefydlu Cylch Meithrin Ysgol Abersoch** |
| **Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran** | Disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy hyfyw.<br><br>Disgyblion yn cael eu haddysgu gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran. | Disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy hyfyw.<br><br>Disgyblion yn cael eu haddysgu gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran.<br><br>Amrediad oedran hyd at 4 mlynedd yn y dosbarth CS + CA2 | Maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch yn parhau yn fach – dosbarth o 10 (Medi 2020).<br><br>Amrediad oedran hyd at 5 mlynedd yn parhau yn y dosbarth. | Maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch yn parhau yn fach – dosbarth o 10 (Medi 2020).<br><br>Amrediad oedran hyd at 5 mlynedd yn parhau yn y dosbarth. | Maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch yn parhau yn fach – dosbarth o 10 (Medi 2020).<br><br>Amrediad oedran hyd at 5 mlynedd yn parhau yn y dosbarth. |
| **Niferoedd Disgyblion** | Niferoedd disgyblion yr ysgol yn debygol o gynyddu gan mai Ysgol Abersoch fyddai'r darparwr addysg CS disgyblion dalgylch y 3 ysgol<br><br>Byddai cyfyngu'r ysgolion cyfagos i ddarparu addysg ar gyfer disgyblion 3 a | Niferoedd disgyblion yr ysgol fyddai'n darparu addysg ar gyfer yr ardal yn fwy cadarn a chynaliadwy i'r dyfodol.<br><br>Lleihad yng nghanran y llefydd gweigion yn yr ardal. | Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Abersoch.<br><br>Rhagamcanion yr ysgol yn parhau i ymddangos yn fregus o ran niferoedd.<br><br>Agorwyd Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle'r ysgol yn mis Chwefror 2020, | Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Abersoch.<br><br>26 o lefydd gweigion (76%)<br><br>Rhagamcanion yr ysgol yn parhau i ymddangos yn fregus o ran niferoedd. | Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Abersoch.<br><br>26 o lefydd gweigion (76%)<br><br>Rhagamcanion yr ysgol yn parhau i ymddangos yn fregus o ran niferoedd. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 4 + 5 a 6 yn unig yn arwain at leihad yn niferoedd disgyblion yr ysgolion hynny.<br><br>Agorwyd Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle'r ysgol yn mis Chwefror 2020, gallai hyn arwain at gynnydd bychan yn niferoedd y disgyblion. | | gallai hyn arwain at gynnydd bychan yn niferoedd y disgyblion. | Agorwyd Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle'r ysgol yn mis Chwefror 2020, gallai hyn arwain at gynnydd bychan yn niferoedd y disgyblion. | Mae'n debygol y byddai ymestyn y ddarpariaeth hyd flwyddyn 4 yn arwain at gynnydd yn niferoedd disgyblion, ac o ganlyniad yn lleihau'r llefydd gwegion, ond nid cymaint ag opsiwn 2 (a).<br>Agorwyd Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle'r ysgol yn mis Chwefror 2020, gallai hyn arwain at gynnydd bychan yn niferoedd y disgyblion. |
| **Arweinyddiaeth a Staffio** | Cyfleodd i rannu staff a rhannu arbenigeddau ar draws yr ysgolion. Cyfleoedd i gydweithio ar faterion cwricwlaidd a datblygu cynlluniau ar y cyd. | Diswyddiadau staff. | Dim newid i amser digyswllt y pennaeth. | Dim newid i amser digyswllt y pennaeth. | Dim newid i amser digyswllt y pennaeth. |
| **Y Gymuned** | Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol – golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. | Colli presenoldeb ysgol ym mhentref Abersoch<br><br>Noder fod canran uchel o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch, felly mae cyswllt rhwng yr ysgolion cyfagos a'r gymuned yn Abersoch eisoes yn bodoli. | Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol – golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned leol.<br>Os na fyddai'r niferoedd yn cynyddu, byddai'r ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynaladwyedd hir dymor yr ysgol.<br>Canran uchel o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch, o ganlyniad mae cyswllt eisoes yn bodoli rhwng y gymuned ac ysgolion eraill. | Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol – golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned leol.<br>Os na fyddai'r niferoedd yn cynyddu, byddai'r ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynaladwyedd hir dymor yr ysgol.<br>Canran uchel o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch, o ganlyniad mae cyswllt eisoes yn bodoli rhwng y gymuned ac ysgolion eraill. | Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol – golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned leol.<br>Os na fyddai'r niferoedd yn cynyddu, byddai'r ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynaladwyedd hir dymor yr ysgol.<br>Canran uchel o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch, o ganlyniad mae cyswllt eisoes yn bodoli rhwng y gymuned ac ysgolion eraill. |
| **Adnoddau Ariannol** | Cyfle i rannu adnoddau a chyfle i ddefnyddio cyllidebau ar draws ysgolion y ffederasiwn.<br><br>Pe byddai'r niferoedd yn cynyddu, byddai'n arwain at leihad yng nghost y disgybl.<br><br>Byddai unrhyw arbediad rheolaethol fyddai'n deillio o'r trefniant yn cael ei gadw gan yr ysgolion i redeg y ffederasiwn.<br><br>Yn sgil agor Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle Ysgol Abersoch, mae potensial i gynhyrchu incwm i'r ysgol drwy godi ffi ar y darparwyr gofal plant am y defnydd o'r adeilad.<br>Posib y byddai'r 3 ysgol angen dyraniad ychwanegol er mwyn sicrhau lefelau staffio priodol. | Gall arwain at gynnydd yng nghostau cludiant i'r awdurdod (os yw'r ysgol amgen fwy na 2 filltir o gartrefi'r disgyblion)<br><br>Ni fyddai'r ysgol yn parhau yn y rhwyd diogelu staffio.<br><br>Cost y disgybl o addysgu yn agosach at y cyfartaledd sirol. | Ysgol Abersoch yn parhau'n anghynaladwy yn ariannol ac yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol (£52,582 yn 2020-21) gan yr awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol.<br>Cyfartaledd cost y disgybl yn parhau'n uchel, £17,404, dros bedair gwaith yn uwch na'r cyfartaledd sirol, a'r uchaf yn y sir.<br>Ni fyddai gweithredu'r opsiwn yn cynhyrchu incwm i'r ysgol o safbwynt y ganolfan iaith.<br>Yn sgil agor Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle Ysgol Abersoch, mae potensial i gynhyrchu incwm i'r ysgol drwy godi ffi ar y darparwyr gofal plant am y defnydd o'r adeilad.<br>Pe byddai'r niferoedd yn cynyddu, byddai'n arwain at leihad bychan yng nghost y disgybl, ond byddai'r ysgol yn parhau mewn gwarchodaeth. | Potensial i gynhyrchu incwm drwy godi ffi ar y darparwyr gofal plant.<br><br>Ysgol Abersoch yn parhau'n anghynaladwy yn ariannol ac yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol (£52,582 yn 2020-21) gan yr awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol.<br>Cyfartaledd cost y disgybl yn parhau'n uchel, £17,404, dros bedair gwaith yn uwch na'r cyfartaledd sirol, a'r uchaf yn y sir.<br><br>Pe byddai'r niferoedd yn cynyddu, byddai'n arwain at leihad bychan yng nghost y disgybl, ond byddai'r ysgol yn parhau mewn gwarchodaeth. | Potensial i gynhyrchu incwm drwy godi ffi ar y darparwyr gofal plant.<br><br>Ysgol Abersoch yn parhau'n anghynaladwy yn ariannol ac yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol (£52,582 yn 2020-21) gan yr awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol.<br>Cyfartaledd cost y disgybl yn parhau'n uchel, £17,404, dros bedair gwaith yn uwch na'r cyfartaledd sirol, a'r uchaf yn y sir.<br><br>Pe byddai'r niferoedd yn cynyddu, byddai'n arwain at leihad bychan yng nghost y disgybl, ond byddai'r ysgol yn parhau mewn gwarchodaeth. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Yr Iaith Gymraeg** | Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol.<br><br>Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/ o fewn y gymuned. | Colli darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ym mhentref Abersoch.<br><br>Darpariaeth addysg Cymraeg cyffelyb yn cael ei gynnig yn yr ysgol amgen. | Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol.<br><br>Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/ o fewn y gymuned. | Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol.<br><br>Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/ o fewn y gymuned. | Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol.<br><br>Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/ o fewn y gymuned. |
| **Ffactorau Daearyddol** | Dim newid i ddisgyblion y CS.<br>Ysgol yn parhau i fod o fewn pellter cerdded o'r cartref i mwyafrif o ddisgyblion CS dalgylch Ysgol Abersoch.<br>Byddai'n rhaid i rai disgyblion deithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd – angen ystyried yr effaith amgylcheddol fyddai'n deillio o hyn. | Ni fydd unrhyw ddisgybl yn yr ardal yn teithio pellter afresymol i'r ysgol.<br><br>Byddai'n rhaid i rai disgyblion deithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd – angen ystyried yr effaith amgylcheddol fyddai'n deillio o hyn. | Dim newid.<br><br>Ysgol o fewn pellter cerdded o gartref mwyafrif o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch. | Dim newid.<br><br>Ysgol o fewn pellter cerdded o gartref mwyafrif o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch. | Dim newid.<br><br>Ysgol o fewn pellter cerdded o gartref mwyafrif o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch. |
| **Ystyriaethau pellach** | Ffederasiwn yn fodel sy'n ddibynnol ar barodrwydd ysgolion eraill i ymuno â'r trefniant i gyd-weithio.<br>Nid yw'n bosib ffederaleiddio ysgolion sydd â statws cyfreithiol gwahanol.<br>Posibilrwydd y byddai angen cynnal proses statudol i newid ystod oed yr ysgolion fyddai'n rhan o'r ffederasiwn.<br>Posib y byddai'n arwain at ostyngiad yn niferoedd yr ysgolion cyfagos, gan y byddai'n eu cyfyngu i ddarparu addysg CA2 yn unig.<br>Disgyblion yn trosglwyddo 2 waith yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol gynradd. | | Aberthu gofod dysgu er mwyn lleoli'r ganolfan.<br>Pryderon ynglŷn â'r diffyg galw am ddarpariaeth canolfan iaith ychwanegol yn yr ardal. | Aberthu gofod dysgu er mwyn lleoli'r Cylch Meithrin. | Aberthu gofod dysgu er mwyn lleoli'r Cylch Meithrin. |
| **Rhai sylwadau gan aelodau'r PAY (Ionawr 2020)** | Pryder am ddiffyg cynrychiolaeth lawn o'r cymunedau ar y corff llywodraethu ffederal.<br><br>Gall dosbarthiadau rhy fawr o ran niferoedd disgyblion fod yn anfanteisiol.<br><br>Gallasai'r newid arwain at rieni'n dewis peidio ag anfon eu plant i'r ysgol.<br><br>Dyfarnwyd Gwobr Aur Siarter Iaith Gwynedd i Ysgol Abersoch | Bydd cau'r ysgol yn arwain at gau Cylch Meithrin, Ti a Fi, Cangen o'r Urdd, Clwb Crefft Hunaniaith a phob menter gymunedol arall mae'r ysgol yn ymwneud â hi gan gynnwys:<br>• defnyddio'r gwasanaeth bws i'r Ganolfan Hamdden yn wythnosol (pryna'r plant eu tocynnau eu hunain, dysgu sut i drin arian, defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus)<br>• beirniadu cystadlaethau addurno ffenestri siopau/busnesau ar gyfer y Nadolig a Gŵyl Ddewi<br>• cyngherddau Nadolig a Gŵyl Ddewi<br>• canu ym moreau Paned Gwener Age Cymru, siopau lleol a mudiadau eraill<br>• ymweliadau â'r traeth | Gall dosbarthiadau bychain fod yn fantais.<br><br>Dyfarnwyd Gwobr Aur Siarter Iaith Gwynedd i Ysgol Abersoch | Gall dosbarthiadau bychain fod yn fantais.<br><br>Dyfarnwyd Gwobr Aur Siarter Iaith Gwynedd i Ysgol Abersoch | Gall dosbarthiadau bychain fod yn fantais.<br><br>Dyfarnwyd Gwobr Aur Siarter Iaith Gwynedd i Ysgol Abersoch |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | • a llawer mwy!<br>**Y Gymuned:**<br>Nid oes gan ysgolion cyfagos bresenoldeb arwyddocaol na chyswllt â chymuned leol Abersoch.<br>Nid yw'n bosibl efelychu cyfraniad y gymuned os nad yw'r ysgol wedi'i lleoli yn y pentref, e.e. cost trafnidiaeth o ran yr effaith ar arian ac amgylchedd yn erbyn cerdded<br>Effaith ar gyswllt dyddiol â rhieni wrth i bob plentyn gael ei ollwng a'i gasglu yn Ysgol Abersoch y hytrach na dal bws, gan ganiatáu ar gyfer cyfathrebu a datblygu parhaus amhrisiadwy a hanfodol, yn annog dysgwyr Cymru i wella eu Cymraeg.<br>**Yr Iaith Gymraeg:**<br>Byddai colli addysg cyfrwng Cymraeg yn Abersoch a'r gymuned ehangach yn effeithio ar ddefnydd o'r Gymraeg fel iaith fyw a gwaith (gweler Atodiad Hunan*iaith* Gwynedd – Cynllun Gweithredu Hyrwyddo'r Gymraeg yn Abersoch).<br>Colli bod yn rhan o weithgareddau megis Shwmae Su'mae i ddosbarthu taflenni i'r siopau/ busnesau | | | |

**Allwedd:** Glas = Manteision Coch = Anfanteision Du = Sylwadau a Ffeithiau